

A photograph of two young women in a workshop setting. They are leaning over a table, working on a large piece of blue fabric. One woman is using a pair of scissors to cut out a pattern piece, while the other is holding a ruler. The background shows a rack of colorful garments and another person in a brown outfit. The overall atmosphere is one of focused creativity and collaboration.

Grym Creadigrwydd:

Tyfu Busnesau Creadigol Cymru

Dr Llyr ap Gareth
Hydref 2024

fsb⁰⁸
Federation of Small Businesses
Ffederasiwn y Busnesau Bach

Diolchiadau

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heb fewnwelediadau busnes bach arbenigol aelodau'r FSB, BBaChau, a rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron, gan yn hael iawn gymryd saib oddi wrth redeg eu busnesau a'u sefydliadau. Diolch ichi i gyd am ein cyflenwi â'r amser a'r dystiolaeth i siarad ar eich rhan.

Diolch yn arbennig i'n partneriaid am ddarparu manau cyfarfod ar gyfer ein cyfarfodydd bord gron, ac am rannu'n hael â rhwydweithiau a busnesau creadigol allweddol i sicrhau bod gennym gymysgedd amrywiol da o fusnesau creadigol. Ni fyddai'r sylfaen dystiolaeth wedi bod mor gref heb eich cefnogaeth. Ein partneriaid allweddol oedd: Theatr Clwyd, S4C Yr Egin, Gorllewin Cymru Greadigol, MSparc, Gogledd Creadigol, a Phrifysgol Caerdydd/Tramshed Tech.

Diolch i staff FSB Cymru am eu holl sylwadau a chymorth, yn arbennig felly Lauren Rose am ei gwaith yn cydlynu a threfnu'r cyfarfodydd bord gron ac yn cefnogi'r mynychwyr. Yn olaf, diolch i'n cydweithwyr yn yr FSB am eu mewnbwn.


Ynglŷn â'r FSB

Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) yw prif sefydliad busnes y Deyrnas Unedig (DU). Wedi'i sefydlu bron 50 mlynedd yn ôl i helpu ein haelodau i lwyddo mewn busnes, rydym yn sefydliad nad yw'n gwneud elw ac sy'n wleidyddol amhleidiol a arweinir gan ein haelodau, ar gyfer ein haelodau. Ein cenhadaeth yw helpu busnesau llai i gyflawni eu huchelgeisiau. Fel arbenigwyr mewn busnes, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau busnes hollbwysig i'n haelodau, yn cynnwys cyngor, arbenigedd ariannol, cefnogaeth, a llais grymus mewn llywodraeth.

Yr FSB yw prif ymgyrchydd busnes y DU hefyd, yn canolbwyntio ar gyflawni newid sy'n cefnogi busnesau llai i dyfu a llwyddo. Mae ein tîm arbenigol yng Nghaerdydd yn gweithio gydag amryw o sefydliadau, gan ddefnyddio ymchwil i lobio'r llywodraethau, gwleidyddion etholedig, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Contents

| | |
|---|----|
| Cyflwyniad | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Sbardunwyr Polisi | 10 |
| PENNOD 1: Beth ddywedodd BBaChau Creadigol wrthym | 12 |
| PENNOD 2: Dadansoddiad ac Argymhellion | 24 |
| CASGLIAD: Beth yw Gwerth Creadigrwydd? | 42 |



'Culture is one of the two or three most complicated words in the English language'

Raymond Williams, 'Culture'

Cyflwyniad

I lawer clust, fe all fod i'r termau 'diwydiant creadigol' ac 'economi creadigol' deimlad lletchwith, gyda'r sector wedi'i ddal yn aml rhwng dau stereoteip yr economegydd materol gor-ofalus a'r artist delfrydgar ffwrdd â hi. Mae ymdrech un i roi gwerth ariannol ar y llall yn cael ei weld fel sinigiaeth, tra bo'r syniad o gyllido 'celf er mwyn celf' creadigol yn cael ei weld fel moeth.

Mae'r data'n glir, mae'r diwydiannau creadigol yn ddiwydiant twf ac yn gynnyrch Prydeinig rhyfeddol o lwyddiannus, sy'n creu £126biliwn mewn gwerth gros wedi'i ychwanegu at yr economi ac yn cyflogi 2.4 miliwn o bobl yn 2022.¹ Gan eithrio gweithwyr llawrydd, cynhyrchodd y diwydiannau creadigol yng Nghymru drosiant o £3.8biliwn yn 2022, sy'n ffurfio 5.3% o gyfanswm Cynnyrch Domestig Gros (GDP) Cymru.²

Mae dadansoddi Cymru Greadigol yn ôl maint y busnesau yn y sector hwn yn dangos ei bod yn cael ei dominyddu gan ficrofusnesau (hyd yn oed yn fwy felly na'r economi ehangach):

- roedd 1% o fusnesau'r diwydiannau creadigol yn ganolig a mawr (50+ yn gyflogedig),
- 6% yn fach (10-49 yn gyflogedig),
- 80% yn ficro (1-9 yn gyflogedig)
- roedd 14% â dim un yn gyflogedig.³

Mae buddsoddiad cyhoeddus yn y sector wedi creu adenillion sylweddol hefyd. Yn ôl UKRI, roedd canlyniadau ei fuddsoddiad o £55 miliwn yng nghylch cyntaf y rhaglen Clystyrau Creadigol i dyfu sectorau creadigol mewn 47 clwstwr trefol allweddol yn "llawer mwy na'r hyn y tybid ei fod yn bosibl".⁴ Mae gallu'r sector i ddangos adenillion o fuddsoddi wedi arwain i lywodraethau'r DU a Chymru ill dwy ddatblygu strategaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol a chlustnodi'r diwydiannau creadigol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer twf, ond bu hyn yn anghyson - tra bo Llywodraeth ddiwethaf y DU yn dweud yn aml ei bod yn faes twf allweddol, nid oedd yn rhan o 5 'maes blaenoriaeth' y Canghellor diwethaf ar gyfer twf yn ei Ddatganiad yr Hydref cyntaf, er bod hyn wedi'i gywiro rhywfaint gyda chymau a gymerwyd ers hynny.⁵ Fe wnaethom yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn yn ystod Gwanwyn a Haf 2024. Wrth i ni orffen yr adroddiad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyrdd, 'Buddsoddi

¹ Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, 'Contribution of the arts to society and the economy' (Ion. 2024)

² M M Fodor, M Komarowski, J Lewis, 'Report update: The size and composition of the creative industries in Wales in 2022' (Gorff. 2023); mae'r ffigurau'n eithrio gweithwyr llawrydd gan ei bod yn anodd cael ffigur cywir (oherwydd hyn rhoddir y dadansoddiad o'r gweithlu yn yr amrediad 68,000-90,000 yng Nghymru)

³ Llywodraeth Cymru, 'Ffigurau'r Diwydiant Creadigol 2017-22 (Tach 23, ar gael ar <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-11/welsh-creative-industries-sector-economic-and-labour-market-statistics-2017-to-2022.ods>)

⁴ 'Model ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yn y diwydiannau creadigol' (Clwstwr: 2023), t 7

⁵ Fe wnaeth 'At Risk: Our Creative Future' argymhell y 'Dylai'r Llywodraeth ymrwmo i osod y diwydiannau creadigol wrth galon ei chynlluniau twf. Dylai egluro ei rhesymeg dros hepgor y diwydiannau creadigol o sectorau twf blaenoriaethol Datganiad yr Hydref.'

2035: Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU', ar gyfer ymgynghoriad, sy'n amlinellu cynlluniau ar gyfer "Strategaeth Ddiwydiannol fodern sydd wedi'i thargedu gyda'r nod o dwf hirdymor, cynaliadwy, cynhwysol a gwydn". Yn nodedig, mae'r diwydiannau creadigol wedi'u hadnabod fel un o'r wyth sector allweddol sy'n sbarduno twf. Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol derfynol, ochr yn ochr â Chynlluniau Sector ar gyfer y sectorau sy'n sbarduno twf, yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2025, wedi'i halinio â'r Adolygiad o Wariant aml-flwyddyn. Prawf allweddol ar gyfer y broses hon fydd sut mae Llywodraethau'r DU a Chymru yn defnyddio eu pwerau i gefnogi ac ysgogi twf ar draws ein cymunedau. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn gobeithio y bydd yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu at ddatblygu a chyflawni strategaeth lwyddiannus ar gyfer y diwydiannau creadigol.

Er gwaethaf hyn, y Celfyddydau a Diwylliant yw'r meysydd cyntaf yn aml i wynebu toriadau mewn tirwedd gyllidol anodd ac ar adegau buont yn destun dirmyg gan ffigyrau gwleidyddol, sy'n wfftio cymwysterau yn y celfyddydau fel rhai 'isel eu gwerth'. Mae hyn yn deillio o ddiffyg eglurder ynglŷn â chreadigrwydd ei hun fel cysyniad.

Y canlyniad yw bod y sector creadigol yn cael ei weld yn aml fel ychwanegyn yn hytrach nag yn sbardun mewn trafodaethau ynghŷlch twf economaidd (cymerir ymagwedd debyg at yr iaith Gymraeg weithiau). Yn anffodus, gall syniadau o'r fath fod yn rhwystr i bobl ifanc sy'n ystyried cyfleoedd gyrfa yn y sector.

Mae'n glir fod rhaid i'r cwestiwn beth a olygwn gan 'werth' wrth drafod creadigrwydd a'r diwydiannau creadigol fynd y tu hwnt i ddim ond mesur data economaidd crai. Fe wnaeth y profiadau y bu inni eu byw yn ystod Covid ddangos bod llawer yn dibynnu ar foddion creadigol i helpu i ddod o hyd i'w ffordd drwy gyfnodau anodd, gan wneud y sector yma'n anhepgor i iechyd meddwl ac ansawdd bywyd.

Mae i'r celfyddydau a diwylliant ran allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â theimlo'n unig ac ynysig, gan ysgogi ffyrdd gweithgar o fyw, gwella swyddogaeth wybyddol, cryfhau cydlyniant cymdeithasol a mynd i'r afael â gwreiddiau achosion trosedd.

Mae gweithgareddau pob dydd yn cynnwys yr Eisteddfod, lleoliad y gig leol, y grŵp darllen a chystadlaethau E-chwaraeon yn helpu unigolion i ddatblygu cysylltiadau, gwella meddwl creadigol a beirniadol, perfformio, sgiliau darllen a deall, ac yn meithrin hyder a sgiliau arwain. Mewn geiriau eraill, maent yn dod â buddion economaidd ychwanegol trwy ddatblygu dinasyddion creadigol, hyderus.

Yn y cyd-destun yma, mae'n arwyddocaol fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi mai'r 'Celfyddydau a Diwylliant' sy'n gwneud waethaf o'r holl nodau llesiant ac nad yw wedi'i sefydlu ar draws gwahanol sectorau.⁶

Mae ymchwil eang NESTA ar yr economi greadigol yn nodi bod uwchraddio BBaChau yn sbardun cynreidiol ar gyfer twf yn y sector. Yn y cyd-destun yma, credwn fod ymagwedd Canol Coll FSB Cymru - edrych ar y meysydd i ymyrryd sy'n gallu helpu cwmnïau bach i dyfu a datblygu ar draws Cymru - yn gallu bod yn ffordd ddefnyddiol o fynd ati i brofi ac edrych ar sut y gall fod yn berthnasol i BBaChau y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Wrth gefnogi BBaChau lleol mewn clystyrau creadigol, rydym yn creu deoryddion a rhwydweithiau sgiliau sydd o fudd i bobl greadigol a chwmnïau lleol eraill hefyd.

Wedi'i wreiddio mewn tystiolaeth gan BBaChau ar draws Cymru, bydd yr adroddiad hwn yn edrych ar sut y gall strategaeth ar gyfer y diwydiannau creadigol ymorol am adeiladu sylfaen i bobl greadigol BBaCh, gan greu sector sydd â lle a chyfle i dyfu. Bydd yn amlinellu paham a sut, o'i wneud yn gywir, y byddai hyn yn ddefnydd wedi'i dargedu'n dda o adnoddau gyda buddion arwyddocaol o ran datblygu economaidd. Os caiff ei alinio â thwf BBaCh, byddai hyn yn darparu ar gyfer effaith ar draws llawer rhan o Gymru, mewn economïau trefol a gwledig fel ei gilydd, ac yn dod â buddsoddiad i mewn i ddiben, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer addysg a chyflogaeth i bobl ifanc ac felly gefnogi'r warant i bobl ifanc. Wrth gefnogi BBaChau yn y diwydiannau creadigol, gallwn gynyddu ffyniant a rhoi hwb i fuddion iechyd a lles ehangach, gan helpu ein cymunedau i ffynnu.

⁶ Yn y cyd-destun yma mae 'Celfyddydau a Diwylliant' yn tueddu i gael eu gwahaniaethu oddi wrth 'Ddiwydiannau Creadigol' trwy gael eu seilio lai o amgylch gweithgaredd economaidd a mwy o amgylch gweithgaredd a lleoedd ariennir yn gyhoeddus (e.e. canolfannau a lleoliadau celf, llyfrgelloedd, amgueddfeydd). Dylid nodi bod y lleoedd hyn yn bwysig i'r diwydiannau creadigol - mae llawer o glystyrau'n ffurfio o'u hamgylch (e.e. cyhoeddi o amgylch y Llyfrgell Genedlaethol yng ngorllewin Cymru; artistiaid o amgylch canolfannau celf) ac yn darparu ar gyfer datblygu sgiliau ac artistiaid. Fel y cyfryw maent yn ffurfio rhan o ecoleg cymorth i bobl greadigol, BBaChau creadigol a diwydiant. Maent yn wahanol yma, ond ni ddylid ystyried eu bod ar wahân.

Argymhellion

Fel sector blaenoriaeth allweddol ar gyfer twf, dylai diwydiannau creadigol fod â pharch cydradd â sectorau diwydiannau allweddol eraill, gan olygu bod ymyriad polisi yn gysylltiedig â sgiliau ac addysg, cyllid, a thwf yn cyd-fynd â rhai sectorau diwydiant 'caled' eraill, megis gweithgynhyrchu a pheirianeg.

Mynediad at Gyllid

- Dylai Llywodraeth y DU liniaru'r hyn y mae buddsoddwyr yn ei ddirnad yn anghyffyrddoldeb gwaith creadigol trwy warantau a/neu gymelliadau llywodraeth ar gyfer benthyciadau a buddsoddi, megis cronfeydd cyfalaf menter â chymorth y wladwriaeth Singapore a De Korea, sy'n ychwanegu chwistrelliad o gyfalaf ac yn dadrisgio buddsoddi.
- Dylai Cronfa Fuddsoddi i Gymru Banc Busnes Prydain sicrhau bod ei waith o fudd i bobl greadigol.
- Ble mae lle i wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwarantu benthyciadau (neu % o fenthyciadau) yn y sector hwn. Dylai Banc Datblygu Cymru archwilio ehangu ei rôl fel darparwr banc Cyfalaf Menter ar gyfer BBaChau o fewn diwydiannau creadigol a pha effaith y gallai ei gael i ddadrisgio buddsoddi, a dylid archwilio'r rôl yma mewn unrhyw adolygiad teilwredig gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Caffael, Tendo a Chontractau

- Mae BBaChau a gweithwyr llawrydd yn gweld prosesau tendro yn aneglur gan fod yna ddiffyg dealltwriaeth cydnabyddedig gan contractwyr ynghylch sut i ddisgrifio a rhoi gwerth ar waith creadigol 'anghyffwrdd' a ddisgwylir gan gyflenwyr, fel nad yw disgwyliadau a dealltwriaeth yn cael eu paru gan contractwyr a chan gyflenwyr yn y cyfnod tendro.
 - Dylai Cymru Greadigol neu gorff priodol tebyg adolygu'r prosesau hyn a chydunio gyda BBaChau fframwaith a chanllawiau i gefnogi contractwyr ar gontractau diwydiannau creadigol i sicrhau eglurder ar:
 - Iaith a mesurau cyffredin er mwyn cysondeb a dealltwriaeth gyffredin o'r disgwyliadau mewn contractau.
 - Annog sgwrs gyda chyflenwyr posibl yn y cyfnod Datganiadau o Ddiddordeb i gael gwybod nodau'r prosiect yn well a chlustnodi'r ffordd orau o fynd ati i ateb anghenion contractwyr.
- Megis gyda BBaChau yn gyffredinol, mae busnesau a gweithwyr llawrydd creadigol yn cael pethau'n anodd gydag amser a chostau gweinyddol, ac yn aml nid oes ganddynt gapasiti Adnoddau Dynol i ymateb mewn ffyrdd sy'n dangos eu sgiliau orau:
 - Dylai mentrau megis 'Cymorth i Dyfu' gynnwys hyfforddiant ar ddod o hyd i gontractau a'u hennill, a chael eu targedu ar ficrofusnesau a'r hunangyflogedig, yn cynnwys o fewn y diwydiannau creadigol fel sector â blaenoriaeth.
 - Dylai defnydd o Ddealltwriaeth Artiffisial (AI) gael ei annog i ysgafnu amser a chostau gweinyddol, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar arferion gorau. Dylai Cymru Greadigol ddatblygu rhwydweithiau darparu cyngor arbenigol o fewn ei hybiau a'i rhwydweithiau rhanbarthol. Dylai'r ffocws fod ar ddefnydd ymarferol a chymwysiadau busnes.

Brand Cymru

- Mae'r diwydiannau creadigol yn rhan enfawr o frand Cymru ac maent yn fantais gystadleuol. Dylai Cymru Greadigol weithio gyda Croeso Cymru i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl. Yn y tymor hwy, polisi FSB Cymru fu bod â chorff Masnach a Buddsoddi Cymru hyd braich i ymorol am ddatblygu cyfleoedd buddsoddi a brand Cymru a chyfleoedd o dramor. Dylai unrhyw gorff o'r fath gysoni'r sector diwydiannau creadigol ag anghenion eraill brand Cymru (megis twristiaeth, buddsoddi ehangach ayb) fel eu bod yn atgyfnerthu ei gilydd.
- Mae'r iaith Gymraeg yn fantais gystadleuol, sy'n darparu cyfleoedd datblygu sgiliau o fewn y sector creadigol yn arbennig, a chynhyrchion y gellir eu marchnata'n fyd-eang mewn amgylchedd ble mae mwy o dderbyniad i ieithoedd lleiafrifol. Mae angen i unrhyw strategaeth diwydiant creadigol ystyried yr iaith Gymraeg yn y fframwaith twf economaidd yma, nid fel ychwanegiad.

Masnach a Mewnfuddsoddi

- Dylai Llywodraeth y DU ymorol am ddatblygu ac ehangu rhyddhadau a chymelliadau treth Ymchwil a Datblygu i ddiwydiannau creadigol ymhellach, gan fod y rheini sydd yn eu lle yn barod - megis y Credyd Gwariant Clyweledol (AVEC) a Chredyd Gwariant Gemau Fideo (VGEC) - wedi bod yn dra llwyddiannus.
- Dylai Llywodraeth y DU archwilio sut y gall % fwy o gyllid Ymchwil a Datblygu gael ei thargedu ar y diwydiannau creadigol drwy sicrhau nad yw'r dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol yn cael eu hepgor mwyach o ddiffiniad Ymchwil a Datblygu'r DU, gan ddilyn arferion gorau'r OECD, a sicrhau bod Eiddo Deallusol (IP) ar gyfer dylunio a hawlfraint yn derbyn parch cydradd â phatentau.
- Dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu galwad yr FSB i wario'r hyn sy'n cyfateb i o leiaf 10% o'r gyllideb Ymchwil a Datblygu gyffredinol ar ledaenu a mabwysiadu arloesi ac yn gosod targed bod o leiaf hanner yr holl gyllid Ymchwil a Datblygu uniongyrchol yn mynd i BBaChau. Dylai hyn fod yn berthnasol i Gymru hefyd.
- Dylai Llywodraeth y DU ddilyn deisiadau polisi DU yr FSB i roi hwb i fasnach ryngwladol. Mae Tasglu Allforio diweddar yr FSB wedi galw ar Lywodraeth newydd y DU i weithio mewn ffordd fwy strategol o ran allforion a BBaChau, yn cynnwys: ymagwedd traws-Llywodraeth Prydain at bolisi, yn cynnwys gweithio gwell ar draws llywodraethau, cynnig cymorth allforio cadarn sy'n diwallu anghenion BBaCh, mynd i'r afael â rhwystrau agweddol i fasnach, a gwella mynediad BBaCh at gyllid masnach.

Cymru Greadigol a Rhwydweithiau Creadigol

- Ymddengys fod Cymru Greadigol yn llwyddiant a dylid gwneud gwerthusiad o'r cynnydd, gan weld hyn yn brawf llwyddiannus o gysyniad i'w ddatblygu ymhellach ac i ddarparu adnoddau digonol i ysgogi rhwydweithiau a chysylltiadau ar y lefel ranbarthol.
- Roedd llawer yn dal i deimlo bod yr amgylchedd sefydliadol yn rhy gymhleth ac felly y dylid mynd ati i fapio'r system, y rolau a'r cylchoedd gwaith yn fanwl, a sut y mae cyrff yn ymwneud â'i gilydd.

Cyllid Cyhoeddus

- Mae'r amgylchedd cyllido ôl-UE yn dameidiog ac yn milwrio yn erbyn prosiectau tymor hir strategol a gweithio rhanbarthol. Mae angen i gylch nesaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) gael ei lunio i fynd i'r afael â'r materion hyn.
- Dylai meysydd arferion da wrth lunio prosiectau fel bod is-gontractau yn cael eu gerio tuag at BBaChau o fewn yr SPF presennol gael eu cadw, eu safoni, a'u hannog yn y dyfodol.

Microglystyrau

- Dylai cylch nesaf y rhaglen Clystyrau Creadigol ymorol am ddarparu ffocws newydd ar ficroglystyrau y tu allan i'r clystyrau crynodrefi trefol, yn cynnwys y 15 microglwstwr yng Nghymru (y mae 12 ohonynt y tu allan i ardal Clwstwr Caerdydd).
- Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ymchwil i ddeall effaith microglystyrau creadigol ar yr economi leol yn well. Dylai'r prosiectau hyn fod wedi'u gerio tuag at ddeall ffactorau economaidd gwledig/trefol, a dealltwriaeth fwy gronynnog o'r rhyngweithio rhwng yr iaith Gymraeg a'r economi.
- Rhaid i'r Bil Bysiau newydd a'i weithrediad fynd i'r afael ag anghenion busnesau fel mater o flaenoriaeth, yn cynnwys:
 - Dylai Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdodau Lleol sicrhau gwasanaethau rheolaidd a dibynadwy i hybiau a pharciau busnes, yn cynnwys microglystyrau creadigol.
 - Dylai atebion arloesol megis gwasanaethau math Fflecsi o ddrws i ddrws i wella traffig a symud i fwrdd oddi wrth ddefnydd ceir preifat gael eu harchwilio.
 - Dylai busnesau fod â mewnbwn uniongyrchol, gan ddarparu adborth ar sut y mae amserlennu yn effeithio ar fynediad at y celfyddydau, diwylliant a'r economi leol.

Awdurdodau Lleol

- Dylai Awdurdodau Lleol gyda chlystyrau creadigol yn eu hardal - neu'r rheini sy'n gobeithio datblygu clystyrau o'r fath - ddatblygu strategaeth diwydiannau creadigol leol lawn yn nodi:
 - Camau i adeiladu sylfaen sgiliau gref i gefnogi unrhyw gynyrchiadau yn yr ardal.
 - Sut i sicrhau bod y diwydiant yn darparu cyflogaeth a chontractau lleol.
 - Cysoni â pholisi rhanbarthol cyffredinol i sicrhau effaith economaidd ehangach.
- Dylai'r arferion gorau ar strategaethau gael eu rhannu ar draws llywodraeth leol trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fforymau tebyg.
- Dylai cymorth ac arbenigedd canolog gael eu darparu trwy Cymru Greadigol neu gorff tebyg i adrannau'r economi leol i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael y cymorth angenrheidiol i ddatblygu strategaethau creadigol a microglystyrau yn eu hardal.

Sgiliau

- Dylai Llywodraeth Cymru edrych tuag at ei phrofiad gwaith a'i chyngor gyrfaoedd mewn ysgolion a lansio ymgyrch i:
 - o Rannu gwybodaeth am ei barn am y diwydiannau creadigol fel sector twf a chyflogaeth allweddol at y dyfodol, a'i rôl wrth ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy arwyddocaol ym maes celfyddyd, y dyniaethau, y technegol a dylunio.
 - o Amlinellu buddion cyrsiau yn y meysydd hyn fel llwybrau i mewn i ddiwydiant sy'n ffynnu ledled Cymru ac yn ardaloedd lleol pobl ifanc.
 - o Amlinellu'r ystod o sgiliau trosglwyddadwy o ran creadigrwydd ond hefyd o ran y cysylltiad â sgiliau technegol sy'n darparu cefndir technegol cryf.
- Dylai'r ymgyrch hwn dargedu ysgolion, rhieni, a chynghorwyr gyrfaoedd. Dylai hyn gyd-fynd â datblygiad parhaus cyflwyno byd gwaith yn ieuengach mewn ysgolion.
- Yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi cyrsiau sydd heb eu llenwi wrth fynd i'r afael â dirnadaethau ynglŷn â hyfywedd gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol.
- Wrth weithredu'r cwricwlwm newydd, dylai ysgolion gael yr awdurdod i ymgysylltu â hybiau a dylai busnesau creadigol gymryd rhan yng ngwasanaeth gyrfaoedd ysgolion.
- Dylai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu rhwydweithiau o BBaChau creadigol a phrosesau ymgysylltu.

Yr Economi Gweithwyr Llawrydd a Hunangyflogedig

- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth hunangyflogaeth benodol - yn cynnwys gweithwyr llawrydd a gyda phwyslais arbennig ar y diwydiannau creadigol – sy'n cael ei rhoi dan gyfrifoldeb Gweinidogol uniongyrchol.

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gynnwys gwybodaeth am AI a hyfforddiant ar draws rhaglenni cymorth, gan bwysleisio'i ddefnydd ymarferol a chreadigol ar lefel y cwmni.
- Dylai Cymru Greadigol weithio gyda'r clystyrau i ddatblygu'n rhagweithiol rwydweithiau o arbenigwyr AI y gall pobl greadigol eraill gael atynt i archwilio ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg mewn cynhyrchion a digwyddiadau creadigol i BBaChau creadigol mewn ffordd sy'n sicrhau chwarae teg.
- Dylai argymhellion adroddiad 'Ailddiffinio Deallusrwydd' yr FSB ar AI gael eu mabwysiadu, yn cynnwys:
 - Deddfwriaeth sy'n sicrhau bod yr holl gynnyrch a grëir gan AI yn amlinellu'n glir bod y cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI ac adolygiad o ddefnydd AI a hawlfraint a sefydlu archwiliadau o ddefnydd AI.
 - Dylai mabwysiadu sgiliau a thechnoleg AI gael ei annog ymhlith BBaChau trwy gorff Prydeinig annibynnol sy'n darparu argymhellion polisi, Cronfa Awtomatiaeth, ac adran ar ddefnydd llwyddiannus AI o fewn busnesau o fewn cyrsiau rheoli (megis Cymorth i Dyfu).



Sbardunwyr Polisi

Strategaeth y Llywodraeth

Mae llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru ill dwy â strategaeth diwydiannau creadigol ac maent wedi clustnodi hwn yn faes twf allweddol, ym mha un y mae gan y DU fantais gystadleuol yn rhyngwladol, ac sy'n barod ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth dda. Bu twf yn y sector yn uwch yn gymharol â'r economi ehangach am y 25 mlynedd ddiwethaf, yn y DU ac yn arbennig yng Nghymru.

Yn 2023, lansiodd Llywodraeth y DU ei gweledigaeth sector diwydiannau creadigol gyntaf.⁷ Yng Nghymru, mae diwydiannau creadigol wedi'u clustnodi'n sector blaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru, a symudodd ymlaen yn 2020 ar addewid yn 2016 i greu Cymru Greadigol fel adran ymreolaethol o fewn y llywodraeth i gydlynu a llywio ymyriad polisi yn y sector.

Mae Llywodraeth newydd y DU eto i amlinellu ei strategaeth diwydiannau creadigol yn fanwl. Roedd maniffesto etholiad y DU Llafur a'u cynlluniau celfyddydau a diwylliant yn canolbwyntio ar " greu swyddi da a chyflymu twf" o fewn y marchnadoedd ffilm, cerddoriaeth a hapchwarae a marchnadoedd creadigol eraill fel rhan o'u Cynllun Sector diwydiannau creadigol, gyda ffocws ar addysg (Lloegr yn unig, gan fod addysg wedi'i datganoli yng Nghymru).

Y Canol Coll Creadigol a'r Economi Sylfaenol

Fel maes allweddol ar gyfer twf, mae i fuddsoddiad yn y diwydiannau creadigol y potensial i arwain at fuddion eang. Serch hynny, mae llwyddiant yn ddibynnol hefyd ar yr ecoleg greadigol ehangach yng Nghymru ac ar gefnogi BBaChau creadigol i dyfu ar draws ein cymunedau.

Mae'r drafodaeth ynghylch diwydiannau creadigol y DU wedi canolbwyntio ar y 47 clwstwr trefol (Caerdydd yw'r unig un yng Nghymru), sydd wedi bod yn dra llwyddiannus. Mae wedi'i ddarganfod yn ymchwiliadau'r Senedd a

⁷ 'Policy Paper: Creative industries sector vision' (DCMS: Mehefin 2023), ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/publications/creative-industries-sector-vision>

⁸ 'Ymchwiliad i Gynrychiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru' (2019); 'At Risk: Our Creative Future' (2023)

San Steffan fod effaith buddsoddi a strategaeth y diwydiannau creadigol ar gyfer BBaChau wedi bod yn llai clir.⁸

Mae agenda 'canol coll' FSB Cymru yn ymorol am adeiladu busnesau llai tuag at fod yn fusnesau canolig eu maint ac mae'n darparu man cychwyn defnyddiol i ystyried y mater hwn yn y diwydiannau creadigol, gan gymryd materion penodol y sector i ystyriaeth. Fel rhan allweddol o'r sector creadigol, wedi'u sefydlu yn eu cymunedau lleol, bydd canolbwyntio ar ddatblygu BBaChau yn helpu i sicrhau buddion i gymunedau ar draws Cymru, ac etifeddiaeth o ddatblygu economaidd lleol.

Amrywiol Effeithiau Covid

Effeithiodd Covid ar bob diwydiant, ond o fewn y diwydiannau creadigol bu iddo amrywiol effeithiau.

Er enghraifft, cafodd sectorau a oedd yn ddibynol ar berfformio byw megis cerddoriaeth a theatr, eu heffeithio'n arbennig. Ar y llaw arall, ble oedd pobl yn mwynhau adloniant gartref, megis hapchwarae a llyfrau, ffynnodd y diwydiannau hynny.

Fe wnaeth gwyllo teledu a ffilm gartref gynyddu tra bo cynhyrchu teledu a ffilm wedi lleihau'n ddramatig ar yr un pryd, gan amlygu'r ddibyniaeth yr oedd gan gwmnïau cynhyrchu'r Unol Daleithiau ar ffilmio yn y DU. Fel mewn manau eraill, dangosodd Covid yn amlwg iawn ble oedd y gwendidau yn ôl diwydiant, ac roedd yn gyflymydd i dueddiadau a oedd ar fynd yn barod yn aml.

O ran gwerth gwaith creadigol, roedd yn amlwg yn rhan anhepgor o'n lles a'n hiechyd yn ystod yr argyfwng, yn pwyntio efallai at ddelfryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o edrych ar fesurau gwerth rhyngberthynol yn torri ar draws meysydd polisi'r economi, iechyd, diwylliant ayb, ac yn dangos y gall fod angen dod â hyn i ffocws mewn 'dyddiau arferol'.

Sgiliau

Mae bwlg sgiliau a diffyg cronfa effeithiol o dalent yn broblemau ar draws llawer o sectorau a 'dyw hyn yn ddim gwahanol i'r diwydiannau creadigol, er gyda heriau penodol.

Un broblem enfawr yw bod cyrsiau celfyddydau a diwylliant yn cael eu hwffio'n rhy aml heb gyd-destun yn 'eilradd', a chânt eu stereoteipio fel hyn ymhlith rhieni, athrawon a disgyblion. I 'sector blaenoriaeth allweddol', mae'n hanfodol bwysig fod sgiliau'r diwydiant creadigol yn cael eu gweld yn galluogi gyrfa hyfyw a boddhaus a bod polisi addysgol ehangach yn cael ei gysoni â'r nod hwnnw.

Mae gweithwyr llawrydd yn parhau'n rhan fawr o'r ecoleg sgiliau, gyda'r rhesymau dros hunangyflogaeth yn wahanol i gyd-destunau eraill o ran cydbwysu cyflog ac amodau a hyblygrwydd. Fe all hyn gael effaith hefyd ar fynediad at sgiliau i BBaChau yn y sector, ond mae'n cynnig hyblygrwydd hefyd i'r rheini sy'n dewis gweithredu fel gweithwyr llawrydd. Mae'n cyfrannu hefyd at sector gwahanol i ddatblygu sgiliau a mynd i'r afael â thâl ac amodau.

Brand Cymru

Mae'r diwydiannau creadigol yn ddiwydiant allforio enfawr i'r DU a Chymru ac fel y cyfryw maent yn chwarae rhan allweddol wrth gario ymwybyddiaeth o Gymru a brand Cymreig sy'n adrodd hanesion Cymru ar draws y byd.

Mae hyn yn fodd hefyd i amlygu ein harwahanrwydd yn y ddwy iaith. Mewn cyfnod ble mae gwranddo ar gerddoriaeth a gwyllo teledu a ffilm mewn ieithoedd lleiafrifol ar gynnydd – sydd i'w weld er enghraifft ym mhoblogrwydd 'cerddoriaeth y byd', mewn 'Scandi noir', neu mewn ffilm yn iaith Korea yn ennill Oscar am y ffilm orau - mae marchnad fyd-eang i greadigrwydd Cymreig yn darparu ar gyfer cyfleoedd enfawr a rhaid ei gysoni â gweithgaredd brand ehangach a meysydd allweddol megis twristiaeth.

Beth ddywedodd BBaChau Creadigol wrthym

I ddeall uchelgeisiau, dyheadau, heriau a phryderon BBaChau a'r hunangyflogedig sy'n gweithio yn y sector creadigol yng Nghymru, cynhaliodd yr FSB gyfres o bedwar cyfarfod bord gron. Cafodd y rhain eu cynnal mewn gwahanol rannau o Gymru a gwahanol gyd-destunau (e.e. gwledig a threfol, ardaloedd mwy Cymraeg eu hiaith, gwahanol gryfderau creadigol demograffig ayb) gyda busnesau o bob cwr i sbectrwm yr economi greadigol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd bord gron gyda phartneriaid lleol yn eu priod ardaloedd er mwyn cael mynediad at rydwethiau lleol ehangach o bobl greadigol.⁹ I sicrhau didwylledd yn ystod y trafodaethau, ni fydd modd adnabod ymatebwyr o'r dyfyniadau a ddefnyddiwyd.

Dyheadau: Tyfu a datblygu'ch busnes

Bu inni ofyn y cwestiwn 'tebyg i beth yw tyfu neu ddatblygu'ch busnes i chi?'

Roedd ar bron pob busnes yn ein cyfarfodydd bord gron ag eisiau tyfu eu busnes ac ehangu eu sylfaen cwsmeriaid. I'r rhan fwyaf un o nodau craidd eu strategaeth busnes oedd tyfu eu gweithlu, a dyhead i gefnogi pobl ifanc i aros yn yr ardal a chael eu galluogi i weithio'n greadigol. Roedd hyn yn amlwg yng nghyfarfodydd bord gron y gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Nid pryder materol yn unig oedd y dyhead hwn, ond mynegodd llawer ymdeimlad o gyfrifoldeb i gefnogi eu hardal leol ac roedd iddynt fudd yn eu bröydd.

"Rwyf yn meddwl mai tyfu'r tîm fyddai hynny a bod yn gallu cefnogi eu talent ifanc yn y rhanbarth. Hyd yn oed fy hun bu raid imi fynd i Fanceinion i weithio i'r BBC ac felly 'mlaen. Pe gallwn greu cwmni sy'n dod â hynny ac yn datblygu sgiliau ac yn golygu nad ydyn nhw o reidrwydd yn gorfod mynd allan i gael y sgiliau hynny. Nid er mwyn bod sgiliau'n cael eu 'cadw yng Nghymru', ond ein bod wedyn yn gallu allforio sgiliau o Gymru i gwmnïau eraill mewn lleoedd fel Manceinion. Rwyf yn meddwl bod hynny'n rhoi cyfle gwych. Dyna fy nod terfynol gyda fy nghwmni i gyd."

Cwmni Dylunio a Thechnoleg, gogledd-orllewin Cymru

Felly, mae twf a dymuniad i gefnogi'r gymuned leol wedi'u hymblethu yn yr agwedd economaidd yma. Mae hyn yn dangos ewyllys ac etheg gref am dwf cynaliadwy, ond fel y byddwn yn ei weld mae yna rai rhwystrau i'r dyhead hwn.

⁹ Ein partneriaid allweddol oedd: Theatr Clwyd, S4C Yr Egin, Gorllewin Cymru Greadigol, MSparc, Gogledd Creadigol, a Phrifysgol Caerdydd/Tramshed Tech.

Hyder Busnes

Bu inni ofyn cwestiwn agored i ganfod lefelau hyder busnesau 'beth sy'n mynd yn dda a beth sydd heb fod yn mynd crystal i'ch busnes ar hyn o bryd?'

Roeddid yn teimlo'n fawr oddi wrth yr **hinsawdd economaidd** bresennol gyda chostau wedi mynd i fyny (ynni, deunyddiau, cyflogau) ond roedd contractau a chyfleoedd am waith yn llai hefyd, gyda gwasgu gan gyllidwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cael effaith ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn ei dro yn rhwystr i dyfu eu gweithlu.

"Mae ein gorbenion wedi mynd i fyny, rhenti i fyny, yr argyfwng costau byw, cyflogau'n mynd i fyny mae'r holl agweddau hyn i gyd wedi effeithio ar y ffi y gallwn ei gynnig i'n cleientiaid. Ac yna mae eu cleientiaid hwythau'n cael eu gwasgu hefyd."

Cwmni Dylunio a Thechnoleg, gogledd-orllewin Cymru

O ran yr economeg bresennol, ychydig a ddywedwyd a oedd yn gadarnhaol ei agwedd, er bod teimlad fod pethau'n gwella tipyn yn yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r canfyddiadau ym Mynegai Busnesau Bach y DU cyffredinol diweddaraf yr FSB.¹⁰

Cafodd Brexit a'r newidiadau dilynol i gyllid ei briodoli fel un o'r rhesymau dros y gostyngiad mewn cyfleoedd cyllido:

"Roedd yr holl gyfresi teledu llwyddiannus hynny [yn y Gymraeg] (Y Gwyll, Byw Celwydd) wedi'u hariannu gan Ewrop Greadigol, felly dyna sut y mae Brexit wedi newid pethau o gyllid yr UE."

Cwmni Teledu, de-orllewin Cymru

"Nid ydy contractau o fewn cyrraedd mor eang gan yr UE oherwydd cymalau cystadleuaeth. Fe wnaethom gollu rhywbeth o'r enw 'Cronfa Gemau Naratif' gan yr UE gan ei bod wedi dod i mewn tua'r un pryd â Brexit."

Cwmni Hapchwarae, de Cymru

I eraill, roedd Brexit wedi amharu'n enfawr ar y cyfleoedd mewnfario/allfario, o ran teithio ond hefyd wrth gael at farchnadoedd a oedd yn arfer bod yn esmwyth:

"Fel cerddor teithiol dinistriodd Brexit fy ngyrfa o ran gallu teithio...Mae'r seilwaith oedd gennym yn ei lle cyn Brexit wedi mynd i gyd i gwmnïau teithiol yn y DU - roedd yn anferth ar gyfer teithio, y seilwaith oedd gennym yn ei lle ble byddai artistiaid byd-eang yn dod i'r DU, yn defnyddio'r bws teithio, rigiau ayb., ac yna'n defnyddio hynny i fynd i Ewrop wedyn, rydych wedi colli hynny i gyd. Mae'r DU yn cael ei hosgoi'n llwyr yn awr. Yn fy niwydiant i mae wedi'i difrodi'n llwyr."

Cerddor, gorllewin Cymru

"Mae ag effaith ar y llwybrau i'r farchnad. Roedd ein marchnad defnyddwyr yn Ewrop o'n gwefan yn sylweddol am y maint o fusnes oeddem. Yn y bôn daeth hynny i ben felly allwn ni ddim anfon llyfrau ar long...Rydym wedi'i chael yn wirioneddol anodd stocio i lwerddon. Mae nifer o awduron Gwyddelig â diddordeb ynom. Ond mae'n risg gweithio gyda nhw gan mai'r farchnad werthu allweddol ydy lwerddon."

Cyhoeddwr, de-orllewin Cymru

Yn ôl rhanbarth byd-eang, Ewrop yw'r prif bartner allfario a mewnfario i BBaChau y DU. Dylai cynyddu'r niferoedd sy'n gallu dewis allfario fod yn flaenoriaeth ganolog i Lywodraeth y DU, ac felly hefyd feithrin cysylltiadau masnach cryfach â phartneriaid masnach mawr y DU, yn cynnwys yr UE.¹¹

¹⁰ Gweler dadansoddiad o'r SBI yn yr un cyfnod â'r cyfarfodydd bord gron yma, Ffigurau'r DU: <https://www.fsb.org.uk/resources-page/rise-in-small-business-confidence-could-signal-end-of-recession-new-report-finds.html>

¹¹ Manifesto Etholiad Cyffredinol y DU yr FSB 2024, ar gael ar <https://www.fsb.org.uk/resources-page/fsb-general-election-manifesto-2024.html>



Sgiliau

Ers cyn Covid, mae arolygon yr FSB bob amser wedi gosod sgiliau a mynediad at sgiliau yn y 3 phrif bryder i fusnesau bach. O ystyried difrifoldeb yr argyfwng cost gwneud busnes, mae'n rhyfeddol ei fod wedi parhau'n fater mor amlwg.

Yn yr un modd roedd sgiliau'n fater allweddol i fusnesau creadigol, yn arbennig cael gafael ar sgiliau yn eu cyffiniau. Teimlai llawer o fusnesau fod darparu cyfleoedd i feithrin sgiliau yn un o nodau craidd eu busnes, er mwyn cefnogi eu busnes ond hefyd i roi yn ôl a chefnogi eu cymuned leol.

Ymwybyddiaeth o gyfleoedd a'r sector creadigol yn lleol

Oddi wrth Gaerdydd, teimlid bod diffyg ymwybyddiaeth ynghylch y busnesau creadigol ffyniannus a'r arloesi sy'n digwydd mewn ardaloedd gwledig. Roedd pryder nad yw pobl ifanc yn arbennig yn ymwybodol o'r busnesau creadigol yn aml ac felly o'r opsiynau am waith sydd ar gael iddynt yn lleol.

“Nid wyf yn meddwl bod llawer ohonyn nhw [pobl ifanc] yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen yng Nghaernarfon. Ble wyf i, mae yna stiwdio arall, yna mae yna stiwdio S4C i gyd yn yr un clwstr bach yma. Ac yna mae gennyh 'stad ddiwydiannol Cibyn, mae dwy stiwdio VR yno mewn gwirionedd!! Mae pobl ifanc yn dal i ddweud 'does dim yma' - wel, MAE YNA! Petai Gogledd Creadigol yn cael mwy o gyllid bydden nhw'n gallu dod â'r rhwydwaith hwnnw at ei gilydd ychydig yn well.”

Gweithiwr Llawrydd Technoleg, gogledd-orllewin Cymru

“Pan fyddaf yn sgwrsio â phobl ynglŷn â beth wyf yn ei wneud maen nhw fel, 'o doeddwn i ddim yn gwybod bod yna gwmni ble gallech wneud hynny o gwmpas yma'. Teimlaf fod yna ddirnadaeth fod rhaid ichi fynd allan i'w wneud. Mae hynny'n dod yn ôl hefyd i'r brifysgol, i'r colegau a beth welan' nhw ar y teledu..”

Stiwdio Deledu, gogledd Cymru

Yn yr un modd, teimlid nad oedd pobl ifanc yn ymwybodol o lawer o gyfleoedd addysgol o ran cyrsiau creadigol (Addysg Bellach neu Addysg Uwch) a fyddai'n cyd-fynd â'u diddordebau y tu mewn i Gymru a theimlai pobl fod angen iddynt adael Cymru i ddilyn eu diddordebau neu gymwysterau ar gyfer gyrfa yn y diwydiannau creadigol.

Addysg a'r biblinell

Yn adlewyrchu beirniadaeth a wnaed yn un o adroddiadau Pwyllgor San Steffan ar y diwydiannau creadigol, pwynt a wnaed dro ar ôl tro oedd bod y rhethreg a wnelo â chysiau celfyddydau a diwylliant fel 'opsiwn meddal' gan Lywodraeth y DU yn ddi-fudd ac yn gweithio yn erbyn y syniad o adeiladu diwydiannau creadigol fel sector blaenoriaeth allweddol, gan ei roi dan anfantais. 'Doedd yr ymatebwyr ddim yn teimlo bod y farn draddodiadol am 'astudiaethau cyfryngau' fel 'opsiwn meddal' yn wir bellach, ond fe erys y rhethreg:

"Mae gennym broblem gyda sut y mae graddau'r diwydiant creadigol yn cael eu gweld. Gwneir llawer o sŵn nad ydy'r cymwysterau hyn yn gallu rhoi swydd i bobl sy'n golygu ein bod yn gweld gostyngiad yn y galw ac yna ostyngiad yn yr hyn a gynigir - hyd yn oed er mai'r diwydiannau creadigol ydy'r sector economaidd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Mae arnom angen mwy o ymwybyddiaeth o werth cyrsiau'r diwydiant creadigol. Mae angen inni gyfleu pwysigrwydd y pynciau hyn yn y sector addysg a sut y gallan nhw fod yn drosglwyddadwy. Mae diffyg ymwybyddiaeth gwirioneddol ynglŷn ag amrywiaeth y rolau sydd ar gynnig yn y diwydiannau creadigol."

Rhanddeiliad, gogledd-ddwyrain Cymru

Perygl y rhethreg yma yw ei bod yn rhoi arwydd i rieni, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd ac yn y pen draw i bobl ifanc fod y rhain yn llwybrau llai dymunol, sy'n debygol o fod yn anghymelliad i ddilyn y cyrsiau hyn. Mae hyn yn arwain at broblem arall a nodwyd, y gallai niferoedd isel yn eu dilyn arwain at gyrsiau - ac felly sgiliau hanfodol i'r economi creadigol - yn cael eu colli. Un enghraifft oedd cyrsiau technoleg theatr yn cael eu cau yn Wrecsam:

"Mae hynny oherwydd niferoedd yn gostwng. Petaem ym myd gweithgynhyrchu, gallem fynd at ddarparwyr Addysg Bellach a dweud dyma beth ydym yn ei wneud, dyma faint o bobl sydd arnom eu hangen eleni ond oherwydd nad oes gennym y lefel o sicrwydd oherwydd cyllid a chyfyngiadau eraill, ni allwn gynnig digon o arbedion maint i sicrhau'r cyrsiau hyn."

Theatr, gogledd Cymru

Mae'n bwysig nodi bod gan lawer o fusnesau gysylltiadau rhagorol gyda'u colegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach lleol. Yn MSparc roedd llawer wedi caffael eu sgiliau trwy'r diwrnod agored i raddedigion. Nodwyd bod Coleg Menai Llandrillo yn rhagorol o ran allgymorth, a'i bod yn amlwg fod cysylltiadau personol yn cael eu gwerthfawrogi.

Fel y gwelsom gyda BBaChau yn gyffredinol pan oeddynt yn cael gafael ar gymorth (pa un ai'n gymorth sgiliau, ond hefyd yn gymorth busnes, mynediad at gyllid, cyngor ayb) rhoddir gwerth mawr ar gysylltiadau personol a chânt eu gwerthfawrogi'n fawr, ac mae'r berthynas yn bwysig er mwyn llwyddiant. Teimlid bod y cysylltiadau yng Nghaerdydd rhwng addysg a busnesau BBaCh - gydag eithriadau a grybwyllwyd megis Coleg Pen-y-Bont ar Ogwr - yn wael at ei gilydd. Gydag amgylchedd mwy a mwy cymhleth, efallai nad yw'r cysylltiadau personol a welwyd yn rhywle arall mor bosibl ac felly eu bod ag angen dull cyd-drefnedig gwahanol o'r canol.

Maes diddordeb arall o fewn trafodaeth ar sgiliau creadigol a'r rheini sy'n gweithio yn y sector yng Nghymru yw bod rhai barnau fod economeg rhenti dinasoedd yn golygu bod cyfle i gymunedau creadigol ffynnu mewn lleoliadau mwy gwledig a threfol.

"I gymunedau Artistig, mae gennym rai o'r amgylchoedd gorau sydd i'w cael, wyddoch chi, meddyliwch chi am y Parc Cenedlaethol a'r arfordiroedd ac mae yna gymaint i'w gynnig yma i bobl creadigol...Oni fyddai'n rhyfeddol, yn hytrach na disgwyl colli llawer o'n pobl creadigol i Fryste a Chaerdydd, fod yna rôl wirioneddol i artistiaid wedi'u lleoli yng nghefn gwlad?"

Cerddor, de-orllewin Cymru

Mae barn o'r fath am yr atyniad (yn economaidd ac o ran lles) yn cyd-fynd hefyd ag amcanion rhai ymyriadau economaidd megis Arfor i gadw neu i ddenu pobl ifanc yn ôl i'w cymunedau. Gall y diwydiannau creadigol gynnig sector sy'n gallu darparu ar gyfer uchelgais a meithrin datblygu economaidd ar y lefel leol ar draws gwahanol rannau o Gymru a dylai unrhyw ymchwil a gwerthuso wedi'i gerio i ddeallwriaeth o'i effaith economaidd gadw hyn mewn cof (pwynt y byddwn yn dychwelyd ato).

Mynediad at Gyllid

Mae BBaChau yn gyffredinol yn cael pethau'n anodd gyda mynediad teg at gyllid. Ymddengys fod hyn yn waeth yn y diwydiannau creadigol, yn arbennig pan fo ofn gwariant cynnar sylweddol am waith a ddatblygir dros gyfnodau hir o amser. Yn ogystal, mae 'anghyffyrddoldeb' gwaith creadigol yn cael ei weld yn aml yn broblem i fuddsoddwyr preifat sydd ar adegau yn ei chael hi'n anodd rhoi eu bys ar y gwerth economaidd o ran cynhyrchion. Mae hyn yn gallu gwneud mynediad at gyllid yn anodd gan fod y 'cynnyrch' yn anodd i fuddsoddwyr ei adnabod ac felly roi gwerth a chymryd risg arno. Fel y byddir yn ei weld, mae'r ffaith eu bod wedi'u seilio i raddau helaeth ar hawlfraint yn hytrach na phatentau (megis mewn meysydd arloesi a thwf eraill) yn arwain at dir rheoleiddiol a chyllidol mwy dyrus.

Dywedodd busnesau wrthym am y gwariant mawr i gynhyrchu sydd ei angen dros gyfnod hir:

“Wrth greu eich gêm fideo gyntaf rydych yn creu cynnyrch dros linellau amser hir. Felly, mae ein hamser cynhyrchu yn chwe blynedd. Felly fe wnaethom ddechrau'r un yma yn 2020. Nid ydym yn mynd i orffen tan 2026. Bydd angen inni oroesi. Rhaid inni dalu i bawb... rydym yn cael cyllid fesul talpiau... Byddai'n wirioneddol dda petai'r llywodraeth yn cymryd at y syniad hwnnw o artistiaid yn defnyddio grantiau neu fenthyciadau hir wedi'u seilio ar freindal. Fel y gallai llywodraeth Cymru ddweud 'fe gymerwn ni ganran o'ch gwerthiannau terfynol i'ch cadw ar fynd.’”

Cwmni hapchwarae, de Cymru

Roedd mynediad at gyllid yn fater a bwysleisiwyd yn arbennig yng nghyfarfod bord gron Caerdydd, gyda diffyg mynediad wedi'i gerio tuag at BBaChau creadigol yn cael ei weld yn rhwystr sylweddol i dwf.



Mynediad at Gyllid Cyhoeddus a Chontractau

I eraill fodd bynnag, mynediad at gyllid a chyfleoedd contractau (o fewn y sector cyhoeddus yn aml) oedd yn cael eu gweld fel y rhwystr pwysicaf i dwf. Yn ein cyfarfod bord gron yng ngogledd-ddwyrain Cymru, soniwyd bod y cyhoeddiad diweddar am gyllid Ffyniant Bro ar gyfer Venue Cymru a Theatr Clwyd yn allweddol i bobl greadigol yn yr ardal fel hybiau ar gyfer creadigrwydd a thalent.

Tra bo grantiau unigol a roddwyd trwy'r SPF (Cronfa Ffyniant Gyffredin) wedi'u croesawu wrth gwrs ac wedi gwneud gwahaniaeth enfawr yn lleol, beirniadwyd y cynllun yn ei gyfanrwydd am ei natur dameidiog. Roedd cyllid ar gyfer lleoedd i bobl greadigol yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth, yn arbennig i gerddorion ac artistiaid, gan ddarparu ar gyfer datblygu yn ogystal â buddion cymunedol ehangach. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd lleoliadau allweddol mewn rhannau eraill o Gymru (Maldwyn One, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth) wedi derbyn yr un faint o gyllid canolog, yn rhannol oherwydd ymagweddau gwahanol a gymerwyd at yr SPF gan wahanol Awdurdodau Lleol.

“[Mae'n golygu] gweithio gyda thri gwahanol leoliad, i lenwi'r un ffurflen, ar yr un prosiect. Mae mewn tair gwahanol ffordd, a gan fod y cyfrifyddu mewn ffyrdd gwahanol hefyd, a'r holl ddisgwyliadau gan y gwahanol awdurdodau lleol. Felly, mae wedi mynd o genedlaethol i or-leol felly mae hynny'n ei wneud yn hyd yn oed yn fwy anodd wedyn....ac roedd disgwyl iddyn nhw ei gael allan erbyn mis Medi hefyd. ...Rwyf yn meddwl ei bod yn wirioneddol anodd i fusnesau gynllunio at y dyfodol a gwybod ble'r ydym yn mynd.”

Rhanddeiliad, de-orllewin Cymru

Oherwydd y ffordd dameidiog o drin yr SPF, nid yw'n cefnogi darparu polisi diwydiannau creadigol sefydlog a chyson ar draws Cymru. Rhagwelodd yr FSB y byddai'r ffordd dameidiog o drin yr SPF yn broblem yn ein hadroddiad 'Adeiladu Busnesau'¹² a byddwn yn dal i weithio ar wthio llywodraethau i ddarparu ffordd well o weithredu i fusnesau yng nghylch nesaf yr SPF, yn cynnwys cysoni â strategaeth diwydiannau creadigol i Gymru.

Nodwyd pocedi o arferion da yn y system bresennol. Roedd rhai prosiectau mawr a arweinid gan y sector cyhoeddus wedi'u llunio i is-gontractio busnesau llai a phobl greadigol ac roeddynt wedi'u llunio i liniaru'r system dameidiog a'r fframiau amser byr dan sylw.

Roedd **mynediad at ac argaeledd contractau** yn broblem a amlygwyd dro ar ôl tro. Nododd llawer ar draws gwahanol rannau o'r diwydiant fod yna, oherwydd yr hinsawdd economaidd, lai o gontractau - sector cyhoeddus a phreifat - nag a fu'n wir o'r blaen, gyda phob rhan o'r gadwyn yn cael ei gwasgu.

“Mae hi'n eithaf caled ar animeiddio ar y funud oherwydd ble byddem yn cael gafael ar jobsys gan y gwasanaethau cyhoeddus ac yn creu animeiddio, neu ychydig bach o waith AR yma ac acw 'dyw hwnnw ddim yno o gwbl bellach, yn bendant mae yna ran o'n busnes sydd wedi mynd yn llwyr.”

Dylunio a thechnoleg, gogledd-orllewin Cymru

Problem arall a amlygwyd oedd bod busnesau yn brin o eglurder ar adegau ynghylch y gwaith yr oeddid yn tendro ar ei gyfer, yn arbennig gwybod a oedd yn addas i'w busnes. Codwyd hyn gan BBaChau, yn arbennig mewn dylunio a thechnoleg, gyda'r teimlad fod contractwyr yn hysbysebu heb fod yn glir beth oedd eu disgwyliadau eu hunain, ac roedd hyn yn golygu diffyg eglurder i gynigwyr posibl.

Gyda chyllid cyhoeddus a gyda chontractau, roedd yr hunangyflogedig a BBaChau llai yn cael pethau'n anodd gyda gweinyddu, o ran pwysau'r gwaith papur sydd ei angen a'r amser a'r costau sydd ynghlwm wrth brosesau na fydd yn llwyddiannus o bosibl. Gallai cyfeirio effeithiol a darparu cymorth yn well, yn cynnwys hyfforddiant a chyngor ar sut y gellir defnyddio AI, helpu i ysgafnu'r baich yma. Mae'n bwysig hefyd fod y rheini sy'n rhoi tendrau neu gyfleoedd cyllido yn sicrhau bod eu prosesau yn syml, eu bod yn defnyddio iaith gyson, eu bod yn glir ynglŷn â'u disgwyliadau a bod cysylltiadau'n cael eu meithrin (yn cynnwys adborth i dendrau neu gyllido aflwyddiannus) i sicrhau bod busnesau'n cael eu llywio tuag at gyfleoedd addas.

¹² L ap Gareth, 'Adeiladu Busnesau: Adeiladu cymunedau trwy gymorth busnes yng Nghymru' (FSB Cymru: 2022), ar gael ar <https://www.fsb.org.uk/resource-report/building-business.html>



Sefydliadau a Cymru Greadigol

Roedd yn drawiadol faint o ganmoliaeth a glywsom i Cymru Greadigol. Roedd hyn o ran y cysylltiad personol yr oedd BBaChau yn rhoi gwerth arno gyda Cymru Greadigol, ond hefyd o ran y cyllid, yr hwb i farchnata a'r cyfleoedd eraill a grëwyd. Gwelwyd hyn ar draws gwahanol is-sectorau:

“Mae'r ecosystem newydd yng ngogledd Cymru yn gweithio'n dda gan olygu ein bod yn fwy chwmwth i dynnu ar a manteisio ar ffrydiau cyllido ac ysgogiadau cymorth. Mae Cymru Greadigol wedi helpu gyda chyllido diffyg. Mae grant diweddar gan Media Cymru i ddatblygu llyfrgell ar-lein wedi bod o gymorth aruthrol.”

Stiwidio Deledu/Ffilm, gogledd Cymru

“Mae Cymru Greadigol wedi bod yn hynod o gefnogol inni. Mae wedi mynd â ni i gonfensiynau rhyngwladol ddwywaith. Mae wedi ein helpu i greu cynulleidfa fyd-eang.”

Cwmni Hapchwarae, de Cymru

“Rwyf wedi gweithio gyda Cymru Greadigol ar gael gafael ar gyllid refeniw a chyfalaf i gael stiwdio gyda rhywfaint o offer gwirioneddol dda...Mae pethau wedi cychwyn o ddifrif, wedi mynd â'n gwaith i'r lefel nesaf. Mae wedi caniatáu inni gael stiwdio recordio gyda'r gorau yn y byd.”

Cerddor, de-orllewin Cymru

Mae'n werth nodi bod y rhwydweithiau yr oedd gennym fynediad atynt o ran dosbarthu gwahoddiadau i'r grwpiau ffocws yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws ac wedi defnyddio Cymru Greadigol. Er hynny, 'dyw hyn ddim yn diystyru ei fod yn ymddangos ei bod wedi gwneud gwahaniaeth ymhlith y rheini y mae wedi gweithio â nhw. Mae hyn yn cefnogi arolwg diweddar Cymru Greadigol yn 2023¹³, a gafodd fod 61% o ymatebwyr wedi clywed am Cymru Greadigol, sy'n awgrymu ymwybyddiaeth sylweddol.

¹³ Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (2024), ar gael ar <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2024-05/creative-wales-industry-survey-2023.pdf> t 21

Mae Cymru Greadigol wedi gwneud gwahaniaeth i ecoleg greadigol Cymru ac wedi darparu un pwynt cydgysylltu a oedd yn brin. Gan ei bod yn ymddangos bod y model yn gweithio'n dda gyda'r hybiau a'r rhwydweithiau, dylai dderbyn adnoddau digonol i ddatblygu'r sector ymhellach.

O ran tyfu eu busnes, mae'n drawiadol sut oedd y rheini y bu inni siarad â nhw yn gweld yr Hybiau Creadigol yn allweddol i'r llwyddiant hwnnw, ac roedd datblygu rhwydweithiau megis Gogledd Creadigol a Gorllewin Cymru Greadigol yn cael ei weld yn bwysig.

Yn ymarferol, roedd sawl busnes yn priodoli llawer o'r gwaith yr oeddynt wedi dod o hyd iddo yn uniongyrchol i fodolaeth yr hybiau a'r rhwydweithiau hyn. Roedd rhai wedi gallu defnyddio'r cysylltiadau a ddatblygwyd trwy'r clystyrau i gydweithio ar gyfer mathau mwy neu wahanol o gontractau neu geisiadau am gyllid.

Eto, rhaid inni gydnabod bod hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r ffaith fod y cyfarfodydd bord gron wedi'u lleoli yn yr ardaloedd clwstwr hynny, ond mae'n awgrymu bod yr hybiau hynny'n llwyddiannus i'r busnesau o'u mewn. Mae model y rhwydweithiau rhanbarthol a'r clystyrau a grëwyd o amgylch hybiau ffisegol wedi bod yn llwyddiannus.

“Pan ail-leolwyd hyb S4C, roedd yna bobl yn dweud pethau fel nad oes y fath beth â diwydiannau creadigol yng ngorllewin Cymru. Felly, rwyf yn meddwl ein bod wedi profi dros y chwe blynedd ddiwethaf fod yna! Mae'r busnesau hyn wedi gallu datblygu wedyn. Rydym wedi cael pobl wedi'u penodi i S4C hefyd [pan ddigwyddodd yr ail-leoli i Gaerfyrddin], wedi datblygu eu sgiliau eu hunain ac yna wedi mynd ati i ddatblygu eu cwmnïau eu hunain. Felly, rwyf yn meddwl bod hynny'n wirioneddol ddiddorol o ran sut y gall hynny newid yr economi leol.”

Rhanddeiliad, de-orllewin Cymru

Mae'n werth nodi bod arolwg Cymru Greadigol wedi gweld bod busnesau creadigol yn teimlo mai'r cymorth pwysicaf y gallent ei gyflenwi oedd trwy gyllid (47%) a chyfleoedd rhwydweithio (42%).¹⁴

Strategaeth a Chyllid Llywodraeth Leol

Roedd y strategaethau a ddatblygwyd ar lefel Awdurdod Lleol yn cael eu hystyried yn gymysgwch.

Fe wnaeth ein cyfarfod bord gron yng ngogledd-ddwyrain Cymru ddethol Awdurdod Lleol Conwy, gan ganmol bod ei strategaeth 'bellter o flaen' eraill yr oeddynt yn ymdrin â nhw. Mae Conwy wedi adeiladu ar gyfleoedd yn dilyn 'I'm a Celebrity Get Me Out of Here...', gan ddatblygu strategaethau i fwyhau gwerth a chyflogaeth yn lleol o gynrychiadau o'r fath. Mae datblygiad parhaus Kinmel Studios yn cael ei ystyried yn estyniad o'r broses yma, sy'n adeiladu ar y microglwstwr creadigol ym Mae Colwyn.

Teimlid, fodd bynnag, mai allanolyn oedd yr enghraifft hon, a ble oedd Awdurdodau Lleol wedi gwisgo cnawd yn llawn ar strategaethau bod hynny i'w briodoli i raddau helaeth i'r ffaith eu bod ag uwch-swyddogion gyda phrofiad o'r sector oedd yn gallu gyrru'r strategaethau angenrheidiol. Teimlid bod capasiti adrannau mewn awdurdodau lleol wedi'i danseilio yn dilyn dros ddegawd o doriadau.

Yn ne-orllewin Cymru, mynegwyd barn debyg am y clytiogrwydd yma a'r ddibyniaeth ar unigolion. Teimlid bod diffyg dealltwriaeth mewn llywodraeth leol yn gyffredinol o'r strategaeth economaidd a wnelo â diwylliant a diwydiannau creadigol, a bod hyn yn rhwystr.

“Dim ond eleni yn ôl pob tebyg y mae Cyngorau Sir yn ystyried strategaeth diwydiannau creadigol. Ac roeddwn i'n dweud “o'r diwedd! mae ar eich radar!”. Felly, mae'n wir wedi cymryd amser i edrych ar hynna, ond rwyf yn meddwl ein bod yn gweld bod y rhwydwaith yn cael ei greu - mae'r chwe Awdurdod Lleol yr ydym yn gweithio â nhw yn siarad â'i gilydd mewn gwirionedd ynghylch yr hyn y maen nhw'n ei wneud a'r hyn y maen nhw'n ei gael yn anodd, dim ond yn dod i wybod beth sydd yno mewn gwirionedd.”

Rhanddeiliad, de-orllewin Cymru

¹⁴ *ibid*

Teimlai'r ymatebydd hwn fod Cymru Greadigol ochr yn ochr â'r hyb fel cydgysylltydd yn bwysig wrth ddod â'r gwahanol gyfranogwyr at ei gilydd. Mae hyn yn awgrymu bod mecanweithiau rhanbarthol neu genedlaethol i rannu arferion da, ac i ddarparu templed i lunio strategaethau lleol sy'n ymgorffori cryfderau lleol, yn gallu cael effaith. I orllewin Cymru, efallai y gallai rhaglenni Arfor yn y dyfodol gael eu cysoni â strategaethau o'r fath, ochr yn ochr â Cymru Greadigol a datblygu rhwydweithiau creadigol lleol.

Yng ngogledd-ddwyrain Cymru codwyd pryder arbennig ynglŷn â gallu Wrecsam a Sir y Fflint i fanteisio ar lwyddiant ysgubol cyfres 'Welcome to Wrexham' Disney. Teimlid nad oedd diwydiannau creadigol yn derbyn parch cydradd â meysydd mwy sefydlog megis gweithgynhyrchu, ac felly roeddiid yn gwarafun arfau i Awdurdod Lleol Wrecsam i gefnogi twf yn y sector trwy strategaeth parthau buddsoddi. Os fel yna y mae hi, mae'n gibddall o ystyried y ffenestr bresennol i adeiladu diwydiant gyda lle i dyfu, o gymharu â hybiau gweithgynhyrchu (sy'n dal yn hollbwysig) sydd wedi'u sefydlu eisoes yng ngogledd-ddwyrain Cymru.



Mewnfuddsoddi

Roedd llawer yn meddwl bod y lleihad yn y cyllid cyhoeddus ar ôl Brexit yn golygu bod angen ffocws o'r newydd ar fewnfuddsoddi, gan fod angen ennill yr arian a gollwyd o rywle arall. Y syniadau a drafodwyd oedd meysydd megis defnyddio credydau treth (nad ydynt wedi'u datganoli ar hyn o bryd), ochr yn ochr â pha lefel o amodoldebau ar (er enghraifft) ddefnyddio cynhyrchwyr a chwmnïau cynhyrchu o Gymru a fyddai'n gymesur i sicrhau bod y buddsoddiad yn cael ei harneisio i ddatblygu'r sector yng Nghymru, ac felly beth ddylai'r cydbwysedd o ddenu buddsoddiad a'r amodau mewn contractau fod. Derbyniwyd at ei gilydd y dylai hyn ddilyn arfer rhyngwladol.

“Y peth mawr sydd arnom ei angen yw gwneud Cymru yn lle mor atyniadol ag y gellwch ar gyfer mewnfuddsoddi... felly petaem yn gallu cael credydau treth lleol trwy Lywodraeth Cymru fel sydd ganddyn nhw mewn manau eraill, felly os ydych yn gweithio gyda chwmni y mae'r rhan fwyaf ohono'n eiddo i berchnogion o Gymru neu â phencadlys yng Nghymru, rydych yn cael credyd treth, os oes rhan iaith Gymraeg fawr iddo, ychwanegwch gredyd treth, felly rydych yn gallu pentyrru credydau... Mae hynny'n cynnig i fuddsoddwyr rhyngwladol y gellwch gael arian yn ôl wrth ddod i Gymru.”

Stiwidio Ffilm a Theledu, de-ddwyrain Cymru

Nodwyd bod 'Welcome to Wrexham' wedi cynnig cyfle unigryw i arddangos talent Gymreig yn yr ardal yma, ac y dylai strategaethau diwydiannau creadigol ar y lefel leol, a defnydd syniadau megis parthau buddsoddi fanteisio ar y cyfle unigryw hwn mewn ardaloedd parod ar gyfer twf.

Pwynt arall a godwyd oedd bod y cyllid prif ffilmiau gan ddarlledwyr eraill yng Nghymru (BBC Cymru, ITV Cymru), y tu allan i S4C, yn brin, sy'n awgrymu y gall strategaeth diwydiannau creadigol ennill hefyd oddi wrth ddull Cymreig o weithredu o blith y darlledwyr yng Nghymru, ac y byddai'n werth archwilio sut y gall datganoli darlledu ddarparu impetws cryfach i ddarparu ar gyfer darlledwyr eraill yn y DU yn datblygu strategaethau sy'n canolbwyntio fwy ar Gymru.

Yr economi gweithwyr llawrydd

Er nad oedd gweithwyr llawrydd yn gyfran fawr o'r ymatebwyr, fe wnaethom gael rhai dirnadaethau defnyddiol, sy'n ymddangos ei fod yn cyd-fynd ag ymchwil ehangach ar weithwyr llawrydd o fewn y diwydiannau creadigol. I fusnesau'n ymorol am recriwtio, roeddynt yn ei chael yn anodd cael pobl ar gontract sefydlog, gan ei bod yn well gan ymgeiswyr hyblygrwydd gwaith llawrydd:

"mae yna lawer o bobl yn awr nad oes arnyn nhw eisiau cael eu rhwymo i mewn i'r contract. Mae arnyn nhw eisiau'r rhyddid i ddewis eu horiau eu hunain...rwyf yn meddwl fod hynny'n rhywbeth ôl-COVID.."

Cwmni dylunio a thechnoleg, gogledd-orllewin Cymru

Cafodd y farn yma ynglŷn â ffafrio hyblygrwydd ei gefnogi gan weithiwr llawrydd yn y drafodaeth, yn nodi bod yr economi wedi newid yn sylweddol ac iddi hi, roedd y sefydlogrwydd yr oedd hi'n ei fwynhau fel gweithiwr llawrydd yn fwy na phetai hi i weithio i gwmni:

"Gan fy mod yn weithiwr llawrydd, rwyf yn gweld fy mod yn gallu dod o hyd i waith yn haws dim ond trwy fod yn un person...fel gweithiwr llawrydd rwyf yn teimlo y gallwn fynd o brosiect i brosiect, gweithio 3 mis i stiwdio ac yna gydag un arall, cael stiwdios i weithio gyda'i gilydd, cael llawer o gydweithredu ...gallwn i fynd i stiwdio fawr, gweithio iddyn nhw yn llawn amser. Ond yn yr economi yma, nid dyna'r opsiwn sefydlog bellach. Rwyf yn teimlo mwy o sefydlogrwydd yn awr nag wyf erioed wedi'i wneud yn fy mywyd cyfan, fel gweithiwr llawrydd."

Gweithiwr llawrydd Technoleg, gogledd-orllewin Cymru

Ymddengys fod yr hyn a glywsom am weithwyr llawrydd yn cael ei gefnogi gan ymchwil ehangach yn nodi bod y diwydiannau creadigol â chyfraddau uwch o hunangyflogaeth, mae 32% o weithlu'r diwydiannau creadigol yn ei gyfanrwydd yn hunangyflogedig (yn cynnwys gweithwyr llawrydd), o gymharu ag 16% o weithlu'r DU. Ym mis Mawrth 2020, roedd 76% o gwmnïau diwydiannau creadigol yn yr arolwg wedi gweithio gyda gweithiwr llawrydd yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda 41% o gwmnïau wedi gweithio gyda chymaint neu fwy o weithwyr llawrydd nag oedd ganddynt o gyflogedigion ac roedd 47% o gwmnïau tra-ficro (1-5 o gyflogedigion) yn gweithio gyda mwy o weithwyr llawrydd nag oedd ganddynt o gyflogedigion.¹⁵

Nododd eraill rai o'r problemau o fewn y sector o ran cyflog ac amodau, a sut oedd hyn yn llyffethair ar recriwtio a chadw hefyd:

"Mae gan y diwydiant broblemau gwirioneddol gydag oriau hir, a 'dyw pobl ddim yn cael cyfle i weld eu teuluoedd."

Rhanddeiliad, gogledd-orllewin Cymru

'Does dim dealltwriaeth dda o'r economi gweithwyr llawrydd – fel yr economi hunangyflogedig ehangach – ac mae datblygu polisi wedi bod yn gyfyngedig yn y maes hwn.

¹⁵ Easton, E., Beckett, B. (2021) Freelancers in the Creative Industries. Creative Industries Policy & Evidence Centre, Ar gael ar: <https://pec.ac.uk/policy-briefings/freelancers-in-the-creative-industries>

Yr Iaith Gymraeg

Roedd yn glir fod y rhan fwyaf o fusnesau sy'n cael gwaith gan y sector cyhoeddus ac elusennau yn darparu gwasanaethau dwyieithog yn ôl yr arfer. Ar ben hynny, teimlai llawer ei fod yn rhoi iddynt fantais gystadleuol a chyfleoedd newydd i ddatblygu eu portffolio. Teimlai un busnes yn ein cyfarfod bord gron yn y gogledd-ddwyrain fod gallu tendro am waith yn y ddwy iaith yn fantais arbennig gan eu bod yn darparu ar gyfer deunydd yn y Gymraeg yng Nghlwyd, y tu allan i'r cadarnleoedd arferol a chlystyrau'r iaith Gymraeg. Roeddynt yn meddwl fod hyn yn cael ei ystyried yn fantais gan gontractwyr megis S4C, a fyddai'n dymuno ehangu eu caffael i bob rhan o Gymru, tra'i fod hefyd yn helpu i ddenu cronfa sgiliau uchel ar draws gogledd Cymru.

Disgrifiwyd hybiau yn rhywbeth pwysig wrth sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith naturiol i wneud busnes ynddi.

Yng Nghaerdydd, argymhellodd rhai mynychwyr fod eraill yn ymorol am hyrwyddo cynnig yn y Gymraeg i gael gafael ar gyllid nad yw ar gael gymaint fel arall.

Mae yna'n amlwg gefnogaeth gyffredinol i ddefnyddio'r iaith ac ewyllys i'w defnyddio yn y diwydiannau creadigol fel norm, y gellir ei harneisio. Byddwn yn trafod ble gall fod cyfleoedd yn hyn o beth yn y bennod nesaf.

Sero Net a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

Bu inni gynnwys cwestiwn penodol ar sero net, ond 'doedd cyfyngiadau amser ddim yn caniatáu trafodaeth fanwl ar y cwestiwn hwn.

At ei gilydd, pan holwyd am sero net, effaith cynhyrchu ffilm fawr oedd y prif fater a godwyd fel cynhyrchydd mwyaf allyriadau, a pholisïau i liniaru'r effeithiau hyn megis defnydd stiwdios o sgriniau LED neu amod sero net yn y cyllid oedd y ffocws wedyn. Yn gyffredinol felly, roedd y trafodaethau hyn yn sefyll y tu allan i'r hyn y gallai BBaChau ei wneud eu hunain. Wrth reswm, roeddynt yn gweld y problemau mawr fel y mater cyntaf i fynd i'r afael ag ef.

Fel rheol, mae hyn yn adlewyrchu'r broblem gyffredinol i BBaChau hefyd – mae ein harolygon wedi nodi ewyllys ac ymdeimlad o gyfrifoldeb i weithredu, ond diffyg eglurder ynghylch beth mae hynny'n ei olygu, a diffyg dealltwriaeth o strategaeth Llywodraeth Cymru a sut y maent yn ffitio o'i mewn.¹⁶

Ble oedd BBaChau wedi cynnal archwiliad carbon ac wedi cymryd camau i fod yn garbon niwtral, trwy gysylltiadau hybiau ag adrannau Addysg Uwch y bu hynny ac felly gallwn nodi'n betrus fod hybiau a rhwydweithiau'n darparu ar gyfer gwell mynediad at arbenigedd. Mae hyn yn awgrymu bod datblygu mannau ymgysylltu trwy hybiau a rhwydweithiau yn gam pwysig wrth wella mannau cyffwrdd ar gyfer sero net (yn ogystal ag ymyriadau eraill) ar draws y gymuned BBaCh.

Nododd ymatebydd hefyd mai un cam i gyrraedd sero net oedd defnyddio cerbydau trydan, a nododd fod hyn yn gostus, ond hefyd fod y diffyg cyfleusterau gwefru cerbydau trydan yng ngogledd Cymru ac o ogledd i dde Cymru yn gwneud hyn yn llai realistig yn eu hardal.

Yn wir, er na chafodd sero net ei godi'n uniongyrchol, codwyd mater cysylltiedig trafndiaeth dro ar ôl tro yn yr holl gyfarfodydd bord gron y tu allan i Gaerdydd. Nodwyd bod canolfannau hybiau a pharciau busnes creadigol wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd heb gar. I bobl ifanc, mae cost dysgu gyrru, prynu car, ac yswiriant yn afresymol, yn arbennig mewn swyddi lefel mynediad. Roedd hyn yn effeithio ar fynediad cwmnïau at y sgiliau hynny hefyd. Ar ben hynny, 'dyw trafndiaeth gyhoeddus ddim ar gael neu'n ddibynadwy i'r canolfannau busnes hyn.

¹⁶ Canlyniadau arolwg yn L ap Gareth 'Yr Hyn ydym yn Rhoi Gwerth Arno' (FSB Cymru: 2021), ar gael ar: <https://www.fsb.org.uk/resource-report/what-we-value.html>

Nodwyd bod rhai hybiau mewn ardaloedd a oedd â thrafnidiaeth gyhoeddus wael:

“Mae ein pennaeth Gweithrediadau’n byw yn [heb ei ddatgelu], heb fod ymhell, ond nid yw’n dreifio. Bythefnos yn ôl, cafodd y bysus eu canslo.”

“Rwyf yn byw ym Mangor, os ydych yn dreifio i MSparc mae’n cymryd 10 neu 12 munud. Os ewch chi ar y bws, mae’n cymryd awr a mwy ac mae’n annibynadwy.”

Cwmni Dylunio a Thechnoleg, gogledd-orllewin Cymru

Roedd sectorau creadigol eraill yn rhan o economi’r nos, ac yn ddibynnol ar fysis a threnau hwyrach er mwyn i’w cynulleidfa allu teithio adref.

Mae’r Bil Bysiau sydd ar ddod yn hanfodol bwysig i fusnesau ar draws y sector, ond yn arbennig i’r rheini sydd wedi’u lleoli yn un o’r parciau hybiau.

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â’i arwyddocâd a’r potensial i gam-fanteisio arno, ’dyw ddim yn syndod efallai mai’r cwestiwn am ‘beth y mae AI yn ei olygu i’ch busnes’ a dynnodd yr ymateb mwyaf amrywiol, gyda sbectrwm o besimistiaid technolegol drwodd i optimistiaid a’r rhan fwyaf o leoedd rhyngddynt (a rhai’n dweud yn agored eu bod yn gwro rhwng y ddau begwn). Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau diweddar adroddiad Ailddiffinio Deallusrwydd yr FSB i’r gymuned BBaCh ehangach, gyda 55% yn gweld cyfleoedd i’w busnes tra bu i 73% o BBaChau fynegi pryderon.

Roedd yn drawiadol mai’r rheini oedd yn fwyaf pryderus oedd y rheini yn y diwydiant cerddoriaeth a oedd yn ofni’r effaith bosibl ar y farchnad ar gyfer eu sgiliau.

Roedd y rhan yma o’r sgwrs yn adlewyrchu’r ansicrwydd cyffredinol yn fras ac mae’n cadarnhau’r hyn y mae’r FSB wedi’i ganfod yn ein hadroddiad ar AI a BBaChau, sef bod angen strategaeth AI sy’n edrych ar sut y gall ei ddefnydd ymarferol i gwmnïau ac arferion da gael eu lleadaenu.



Dadansoddiad ac Argymhellion

Mae'n ddefnyddiol gweld sut y caiff diwydiannau creadigol eu diffinio ac yna'u gweithredoli mewn polisi gan Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Fel y'u diffinnir yn Nogfen Mapio diwydiannau creadigol Llywodraeth y DU 2001, diwydiannau creadigol yw'r "diwydiannau hynny sydd â'u tarddiad mewn creadigrwydd, sgil a thalent unigol ac sydd â photensial i greu cyfoeth a swyddi trwy gynhyrchu a manteisio i'r eithaf ar eiddo deallusol".

Yn eu diffiniad hwy o ddiwydiannau creadigol, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn defnyddio rhestr o 31 o alwedigaethau wedi'u gwasgaru ar draws 9 ardal Cod SIC. Mae'r grwpiau diwydiannau creadigol hyn yn cynnwys 'Hysbysebu a Marchnata' i 'Grefftau' i 'TG', gan adlewyrchu sut mae'r diwydiant yn cwmpasu gwahanol rannau o'r economi. Mae'r gweithgaredd mwy gronynnog o dan y penawdau hynny yn fwy gwahanol fyth.¹⁸

Mae'r term 'economi creadigol' yn cael ei ddiffinio yn rhywbeth gwahanol i 'ddiwydiannau creadigol' yn nefnydd y Llywodraeth. Mae economi creadigol yn cynnwys galwedigaethau creadigol a galwedigaethau anghreadigol, y naill a'r llall, o fewn y diwydiannau creadigol, yn ogystal â'r rheini sy'n gweithio mewn galwedigaethau creadigol mewn sectorau anghreadigol eraill (er enghraifft gweithiwr marchnata proffesiynol yn gweithio mewn gwasanaethau ariannol).

O fewn y diffiniad hwn, mae'r DCMS yn darparu teipoleg o 'alwedigaethau creadigol' hefyd, wedi'i seilio ar waith NESTA yn y maes hwn. Eto, mewn manylder gronynnog, mae hyn yn cwmpasu 31 o alwedigaethau pellach ar draws y 9 'grŵp diwydiannau creadigol'.¹⁹

Er yr ymddengys fod y rhain wedi'u diffinio'n dynn iawn, mae'n bwysig nodi bod gwaith dilynol NESTA yn nodi enghreifftiau o alwedigaethau eraill gyda setiau sgiliau tebyg sy'n eistedd y tu allan i ddiffiniad Creadigol. Er enghraifft, mae 'galwedigaethau Pensaernïaeth' â sgiliau tebyg i (ymhlith eraill) 'syrfewyr siartredig', mae galwedigaethau crefft â sgiliau fel 'galwedigaethau Gweithgynhyrchu (e.e. crefftau esgidiau a gweithio lledr)'.²⁰

Y casgliad allweddol yw bod diwydiannau creadigol yn annhebyg i'w gilydd a bod iddynt sgiliau trosglwyddadwy, a bod amlinellau'r ffin ynghlŷn â diffiniad diwydiannau creadigol o reidrwydd yn niwlog. Mae ymchwil NESTA yn gweld bod y gwahaniaethiad niwlog hwn yn egluro'i botensial ar gyfer twf, ac ar gyfer catalyddu datblygiad - yn cynnwys gwell sgiliau i fusnesau NAD YDYNT mewn diwydiannau creadigol - yn yr ardaloedd ble mae wedi

¹⁷ System dosbarthu data safonedig yw Codau SIC i ddisgrifio gweithgaredd economaidd yn y DU ac fe'u defnyddir gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Arolwg o'r Llafur i ddisgrifio busnesau yn ôl y math o weithgaredd economaidd y maen nhw'n ymgymryd ag ef; ar gyfer rhestr lawn y 9 'Grŵp Diwydiannau Creadigol' a'r rhychwant o alwedigaethau sy'n eistedd oddi tanynt gweler J M Garcia, J Klinger a K Stathoulopoulos 'Creative Nation: How the creative industries are powering the UK's nations and regions' (Nesta: 2018)

¹⁸ https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a8039af40f0b62302692413/CIEE_Methodology.pdf

¹⁹ Ar gyfer y rhestr lawn gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a8039af40f0b62302692413/CIEE_Methodology.pdf;

²⁰ NESTA <https://www.nesta.org.uk/report/a-dynamic-mapping-of-the-uks-creative-industries/> (2013)

'Creative Nation' (Nesta: 2018)

clystyru. Mae hyn yn adlewyrchu dynamiaeth i'r sector sydd ag effeithiau gorlifo, gan fod y rolau hyn yn darparu ar gyfer creadigrwydd yn rhywle arall:

“Mae cwmnïau yn y sectorau diwydiannau anghreadigol sy'n gweithredu mewn clystyrau creadigol yn tueddu i fod yn fwy creadigol hefyd. Mae mwy na dwy ran o dair o'r lleoliadau sy'n arbenigo yn y diwydiannau creadigol â thueddiad hefyd i fewnblannu creadigrwydd yn fwy eang mewn sectorau eraill. Mewn cyferbyniad, dim ond 13 y cant o leoedd heb arbenigedd creadigol sy'n gwneud yr un fath.... Mae'r lleoedd hynny gydag arbenigeddau creadigol cryf yn gweld y cryfderau hynny yn lledaenu i ddiwydiannau eraill, a allai eu gwneud yn fwy arloesol a chynhyrchiol. Dylai llunwyr polisi gymryd hyn i ystyriaeth a cheisio gwella'r gorlifiadau creadigol hyn pan fyddant yn datblygu polisiau newydd i gryfhau clystyrau creadigol.”²¹

Felly, elfennau anghyfyrrdadwy 'diwydiannau creadigol' - er eu bod yn gwneud diffiniadau tynn yn anodd - yw'r rhesymau hefyd paham y bu clystyrau mor llwyddiannus a'u bod yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar yr economi yn eu hardaloedd. Felly gall ymyrryd mewn twf creadigol ledaenu'r sgiliau creadigol - ac felly gapasiti a galluoedd - i arloesi trwy'r economïau lleol i gyd y tu mewn yn ogystal â'r tu allan i ddiwydiannau creadigol.

Mae hyn yn wers a ddylai fod wrth wraidd strategaeth economaidd, ac yn hanfodol gael ei weld trwy lens sy'n edrych ar ddatblygu mwy lleol ar draws lleoliadau yng Nghymru. Fel y cyfryw, mae FSB Cymru yn cymryd canfyddiadau NESTA fel man cychwyn sydd wrth wraidd dull gweithredu canol coll, yn arbennig gan eu bod hefyd yn dadlau dros angen i gysoni strategaeth diwydiant creadigol â ffocws ar dwf BBaChau creadigol:

“Er bod busnesau creadigol yn fwy cynhyrchiol na busnesau o faint cymharol, ni fyddant yn cyfrannu i raddau mawr at fynd i'r afael â phroblemau cynhyrchiant y DU oni bai eu bod yn uwchraddio'n sylweddol. Er enghraifft, mae busnesau creadigol gyda llai na deg o gyflogedigion â Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y gweithiwr o £46,000, 20 y cant yn uwch na busnesau o faint tebyg mewn sectorau eraill. Mae naw deg pedwar y cant o'r cwmnïau yn y sector, fodd bynnag, yn ficrofusnesau (10 y cant yn fwy nag mewn sectorau eraill), sy'n cyfyngu gallu'r sector i godi cynhyrchiant rhanbarthol. Bydd twf yn y sector yn cael yr effaith economaidd fwyaf os yw'n cael ei ganlyn gan gynnydd yn nifer y busnesau sydd wrthi'n tyfu gyda thwf cynhyrchiant uwch.”²²



²¹ ibid

²² Ibid, fy mhwystrais i

Polisi Llywodraeth Cymru

Diffiniad (a rhestrau o alwedigaethau) Llywodraeth y DU yn ymarferol yw'r un a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ac ar draws sefydliadau sy'n cefnogi'r sector.

Awgrymodd ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant y Senedd yn 2019, pan oedd hi'n dod i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, fod Llywodraeth Cymru yn ceisio dal i fyny oherwydd y ffaith fod yna strategaeth lefel y DU yn ei lle yn barod, a bod yna 'daer angen i drefnu cyfeiriad strategol i ddiwydiant sgrîn Cymru'.²³

Mae cynnydd wedi'i wneud gyda Llywodraeth Cymru yn cynnwys y diwydiannau creadigol fel un o'i phedwar maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer twf ac yn sefydlu Cymru Greadigol yn 2020 fel swyddogaeth ar wahân o fewn Llywodraeth Cymru. Maent wedi ymrwymo hefyd i flaenoriaethu datblygu sgiliau, hyrwyddo amrywiaeth, symleiddio cyllid a chymryd rôl arweiniol wrth farchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd, trwy frand Cymru Greadigol newydd.

Ar ôl ei sefydlu yn 2020, mae Cymru Greadigol wedi anelu at yrru twf y sector diwydiannau creadigol yng Nghymru gyda ffocws rhanbarthol a ffocws sector wedi'i dargedu fwy ac i weithio gyda phartneriaid allweddol i hyrwyddo nodau ar y cyd. Mae eu prif fesur o lwyddiant mewn termau economaidd, yn cynnwys cynnydd mewn trosiant, yn nifer y gweithwyr, genedigaethau busnesau, eiddo deallusol a gedwir a gwariant yn economi Cymru. Mae disgwyl i fuddion ehangach gynnwys cadwyn gyflenwi gryfach, gwell llwybrau sgiliau a thalent, yn ogystal â buddion diwylliannol a chymdeithasol sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld Cymru Greadigol fel ei phrif sbardun sefydliadol cyd-drefnol ar gyfer polisi, ac mae â chysylltiadau â rhwydweithiau creadigol rhanbarthol (megis Gogledd Creadigol, Gorllewin Cymru Greadigol).

Yn ei asesiad ei hun, nododd Cymru Greadigol *"na fydd yn cynnwys yr holl is-sectorau yn gyfartal yn rhagweithiol ac yn y tymor byr mae yna feysydd blaenoriaeth clir, yn edrych ar ddatblygu'r is-sectorau Ffilm a Theledu, meysydd manteisio i'r eithaf ar dechnoleg megis animeiddio a gemau, a chefnogi gyrfaoedd hyfyr yn y diwydiant cerddoriaeth."*

Rydym yn cydnabod nad yw Cymru Greadigol yn gallu blaenoriaethu cymorth wedi'i dargedu ym mhobman, ond mae'n bwysig fod y sectorau hynny nad ydynt wedi'u blaenoriaethu ar hyn o bryd gan Cymru Greadigol yn gallu cael at fathau eraill o gymorth busnes - er enghraifft roedd cymorth Covid gan Gyngor Llyfrau Cymru yn sicrhau bod ysgolion yn cael gafael ar lyfrau plant gan gyhoeddwr o Gymru ble oedd yn briodol.

Mae ein gwaith maes yn dangos bod y rheini sydd wedi gweithio gyda Cymru Greadigol yn fodlon ar y gwasanaeth at ei gilydd (er fel y gwnaed y cafeat o'r blaen y rhwydweithiau y gwnaethom gael atynt oedd y mwyaf tebygol yn ôl pob tebyg o fod â chysylltiad â Cymru Greadigol). Sut bynnag, mae hyn ynddo'i hyn yn pwyntio at gryfder yr hyb a'r rhwydweithiau ar draws Cymru.

Yn wir, ymddengys fod y rhwydweithiau creadigol rhanbarthol yn datblygu'n dda yng ngogledd Cymru a de-orllewin Cymru ond byddant ag angen mwy o adnoddau i dyfu a gwasanaethu'r rhwydwaith cyfan yn effeithiol. Byddem yn awgrymu bod gwerthusiad i'w wneud, a bod ei gamau cychwynnol i'w cymryd fel prawf o gysyniad sy'n werth ei ddatblygu ymhellach.

- **Ymddengys fod Cymru Greadigol yn llwyddiant a dylid gwneud gwerthusiad o gynnydd, gan weld hyn fel prawf llwyddiannus o gysyniad i'w ddatblygu ymhellach ac i ddarparu adnoddau digonol i yrru rhwydweithiau a chysylltiadau ar y lefel ranbarthol.**

Mae ein gwaith maes yn awgrymu hefyd fod yr ecoleg sefydliadol sy'n cefnogi pobl greadigol yng Nghymru wedi gwella er 2020 a bod Cymru Greadigol wedi darparu arweiniad effeithiol ar adnoddau cyfyngedig ond y

²³ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 'Ymchwiliad i Gynrychiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru' (Senedd: 2019)

gellir gwneud mwy i sicrhau bod yna gydlynid polisi a bod cymorth yn cael ei symleiddio. Mae arolwg Cymru Greadigol ei hun yn cefnogi'r canfyddiadau hyn:

*“Pan holwyd ynghylch sut y gall Cymru Greadigol gefnogi'r sectorau yn well, megis gydag arolwg 2022 y tri phrif faes sy'n sefyll allan yw cyllid, rhwydweithio, a chymorth a chyngor busnes. Yn yr arolwg hwn, mae cyllid yn dal yn brif flaenoriaeth i bron hanner (47%) gan amlygu'r angen am help ariannol o fewn y sector creadigol. Mae rhwydweithio yn agwedd hollbwysig arall ar ôl Covid gyda 42% yn mynegi dyhead am gymorth wrth feithrin cysylltiadau. Yn ogystal, mae 30% â diddordeb mewn cymorth a chyngor busnes.”*²⁴

- **Roedd llawer yn dal i deimlo bod yr amgylchedd sefydliadol yn rhy gymhleth ac felly y dylid mynd ati i fapio'r system, y rolau a'r cylchoedd gwaith, a sut y mae cyrff yn ymwneud â'i gilydd, yn fanwl.**



Strategaeth Economaidd 'Canol Coll' FSB Cymru ar gyfer twf BBaCh

Mae strategaeth economaidd FSB Cymru ar gyfer twf BBaCh cynaliadwy wedi'i seilio o amgylch ein gwaith ar ganol coll Cymru. O ran cyflogaeth, mae'n wlad a ddominyddir gan ficrofusnesau a busnesau amlwladol. Ar y naill llaw mae gan Gymru ei microfusnesau ffyniannus ac entrepreneuriaidd gyda chwmnïau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl yn ffurfio 94.6% o'r holl fusnesau, a BBaChau yn ffurfio 60.3% o gyflogaeth y sector preifat. Mae'r canol coll - y rheini sy'n cyflogi rhwng 50-250 o bobl - yn ffurfio 2.2% y cant o fusnesau a 10% o gyflogaeth.²⁵

Byddai i fodel twf cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y cwmnïau bach (10-49 yn gyflogedig) a chanolig eu maint (50+) fuddion cryf, gan ddarparu ar gyfer gwell cyflogaeth leol, swyddi mwy crefftus, a meithrin capasiti a galluoedd cwmnïau i arloesi, datblygu ac arallgyfeirio, yn ogystal â mwy o ffyrdd drwy ba rai i gynyddu eu cynhyrchu a'u hallforion. Wrth sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth a bod cwmnïau'n cael eu cymell i aros mewn perchnogaeth leol ac wedi'u sefydlu mewn cymunedau, byddai hefyd yn sicrhau cyfalaf ar gyfer datblygu economaidd lleol.

Mae enghreifftiau rhyngwladol yn dangos y pwysigrwydd:

“Mae gan y Japaneaid derm amdanynt hyd yn oed: chuken kigyo (cwmnïau cryf, canolig eu maint). 'Does dim gwahaniaeth os yw'r brand ar y casin yn dweud Apple, Nokia neu Samsung: mae'r tu mewn yn llawn o nwyddau Japaneaid... Mae Mittelstand yr Almaen, yr hyn sy'n cyfateb agosaf yn y Gorllewin i'r chuken kigyo, yn ymfalchio

²⁴ Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (2024)

²⁵ Llywodraeth Cymru 'Maint a Strwythur Busnesau yng Nghymru' (Tach 2023) <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-12/size-analysis-of-active-businesses-in-wales-2023-165.pdf>

*mewn llawer o oreuon byd lled fychan hefyd. Yr un modd fwy neu lai â Mittelstand, mae chuken kigyo Japan nid dim ond yn rhan o'r economi genedlaethol, ond yn graidd ei strwythur diwydiannol hefyd.*²⁶

I gefnogi microfusnesau sy'n gobeithio tyfu, mae'r FSB wedi awgrymu'r atebion polisi a ganlyn:

- Cymorth Busnes: Arbenigedd a Mynediad at Gyllid wedi'u llunio i anghenion BBaCh (cylchoedd cyllidebol, hygyrchedd)
- Gwell Mynediad at gyllid: er bod amrywiaeth o wasanaethau ar gael i BBaChau, o grantiau i gynlluniau gwarant, o ffynonellau sy'n cynnwys Cyllid Allforio'r DU (UKEF), Banc Busnes Prydain a'r sector preifat, mae'r dirwedd bresennol yn dameidiog. Mae ffordd gydgysylltiedig o fynd ati rhwng darparwyr yn bwysig i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfradd derbyn BBaChau. Ar ben hynny, mae sicrhau bod hyn yn diwallu anghenion y sector creadigol fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer twf gyda mynediad at farchnad fyd-eang yn bwysig yn y cyd-destun hwn.
- Meithrin Capasiti a Galluoedd: meithrin y sylfaen sgiliau o fewn cwmnïau llai, yn cynnwys arweinyddiaeth a rheoli.
- Gwell rheoleiddio: cydnabod bod amser yn golygu cost i BBaChau, felly mae rheoleiddio diangen yn atal cyfleoedd i ganolbwyntio mewn man arall.
- Datgymhellion i ymadael: yn aml mae cwmnïau canolig eu maint Cymru sydd mewn bod yn wynebu dewis ynghylch pa un ai i werthu eu busnes i gwmnïau amlwladol mwy neu i fynd ar drywydd twf domestig cynaliadwy, ond mae'r ail yn llawer llai atyniadol yn aml oherwydd rhwystrau diangen, neu ddiffyg cynlluniau ar gyfer olyniaeth amgen.
- Adeiladu ein hasedau: symudiad yn y pwyslais o fewnfuddsoddi ni waeth beth yw'r pris tuag at dwf cwmnïau domestig a'u cadwyni cyflenwi. Caffael yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ein cyfoeth cymunedol mewn BBaChau.
- Darbodion lle: yn cydnabod effaith ofodol penderfyniadau ac yn ceisio llunio amrywiaeth o bolisiau datblygu economaidd sy'n berthnasol i wahanol economïau gwahanol leoedd.

Mae'r polisiau hyn yn arbennig o bwysig o ystyried newidiadau i fasnach fyd-eang, y pontio i fodelau sero net a'r ansicrwydd mewn perthynas â buddsoddi uniongyrchol o dramor. Nid yw hyn i ddiystyru pwysigrwydd buddsoddi uniongyrchol o dramor, ond yn hytrach i gydnabod nad yw mesurau cyflogaeth eu hunain yn arwyddo twf cynaliadwy. Rhaid inni ymorol am ddatblygu ein brandiau Cymreig ein hunain sy'n gallu cystadlu'n fyd-eang tra'u bod wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau ac yn gwella'r aliniad rhwng mewnffuddsoddi a mesuriadau gwerth ehangach (datblygu'r gadwyn gyflenwi, caffael lleol a chyflogaeth). Y ffordd yma o fynd ati a ddefnyddiodd FSB Cymru i ddatblygu 'canol coll Cymru'.

Mae llawer o'r atebion polisi a amlinellwyd uchod yn berthnasol i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Yn wir, mae i'r diwydiannau creadigol dueddiad uwch i dyfu na'r economi gyffredinol, ac mae'n hollbwysig fod y busnesau hynny sydd arnynt eisiau tyfu ac sydd â'r capasiti i wneud hynny yn gallu cael at y cymorth, y rhwydweithiau a'r cyfleoedd sydd eu hangen i'w galluogi i wneud hynny yn eu cymunedau lleol.

Mae'n ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn ystyried yr adroddiad yn 2023 a gynhyrchwyd gan Bwyllgor Diwylliant Tŷ'r Arglwyddi yn edrych ar anghenion diwydiannau creadigol a nododd fod 'anghydlyniad polisi' yn broblem ac a argymhellodd yr ymyriadau canlynol:

- cryfhau cyfraith eiddo deallusol a hawliau artistiaid;
- addasu ymchwil a datblygu i arloesedd pobl creadigol sydd wedi'i seilio fwy ar hawlfraint na phatentau;
- cymelliadau cyllidol a gwell mynediad at gyllid;
- gwell cymorth i fusnesau;

²⁶ Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi 'At risk: our creative future' (Ion 2023)

- gwell casglu data;
- newid y naratif sy'n paentio'r ddarpariaeth addysg wedi'i gerio tuag at y celfyddydau yn llai 'defnyddiol', yn arbennig pan fydd yn gysylltiedig â dylunio a thechnoleg; a
- gweithredu cynlluniau datblygu sgiliau.

Er bod yr adroddiad yn edrych ar dirwedd y DU (ac o ran addysg a datblygu sgiliau, yn oblygedig ar Loegr yn unig) mae Llywodraeth Cymru â rhan i'w chwarae ar draws llawer o'r meysydd hyn ac maent yn cyd-fynd â'r ymyriadau polisi hynny sy'n dyngedfennol i'n dull canol coll.

Wrth gwrs, nid yw pob cwmni wedi'u gerio ar gyfer twf (ac ni ddylent i gyd fod wedi ychwaith). Yn ogystal, efallai nad yw rhai busnesau eu hunain yn y sectorau creadigol wedi'u gerio tuag at dwf ond maent yn hollbwysig i ddatblygiad y diwydiant - lleoliadau cerddoriaeth, canolfannau diwylliannol, ac felly ymlaen.

Cyllid

Mae'r angen i sicrhau dull crwn a chydlynol o weithredu yn hanfodol, yn arbennig o ystyried canfyddiadau Equity fod Cymru wedi cael toriad o 30% yng nghyllid y celfyddydau er 2017, llawer mwy sylweddol na'r toriadau mewn gwledydd eraill. Mae'n debygol fod hyn yn ganlyniad i ddibyniaeth Cymru ar gyllid yr UE, ac o fewn hynny, ddibyniaeth gymharol y sector creadigol a'r sector celfyddydau. Adlewyrchwyd hyn mewn llawer o sylwadau a glywsom yn ystod y cyfarfodydd bord gron a oedd yn nodi effaith colli cyllid yr UE. Yn arbennig, roedd colli mynediad at gyllid tymor hir yn cael effaith sylweddol. Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, roedd llawer wedi bod yn ddiolchgar am gyllid yr SPF ond yn ei weld yn dameidiog, yn brin o strategaeth a'i fod yn gwneud meddwl rhanbarthol a thymor hir yn fwy anodd, er bod sefydliadau wedi ceisio llunio eu prosiectau i liniaru hyn.

- **Mae'r amgylchedd cyllido ôl UE yn dameidiog ac yn milwrio yn erbyn prosiectau tymor hir strategol a gweithio rhanbarthol. Mae angen i gylch nesaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) gael ei lunio i fynd i'r afael â'r materion hyn.**
- **Dylai meysydd arferion da wrth lunio prosiectau fel bod is-gontractau'n cael eu gerio tuag at BBaChau o fewn yr SPF bresennol gael eu cadw, eu safoni, a'u hannog yn y dyfodol.**

Gwelwyd y natur dameidiog yma hefyd yng nghlytiogrwydd strategaethau awdurdodau lleol ar y diwydiannau creadigol fel y nodwyd yn ein cyfarfod bord gron gyda'r ymatebwyr yn awgrymu eu bod yn amrywio o ragorol i annatblygedig. 'Dyw hyn ddim yn syndod yn ôl pob tebyg o ystyried y diffyg capasiti o fewn Awdurdodau Lleol yn dilyn degawd o doriadau. Y canlyniad yw bod dealltwriaeth a chynlluniau strategol a ddatblygwyd yn ddibynnol ar fod â phobl mewn swyddi uwch gyda dealltwriaeth a phrofiad o'r sector. Mae hyn yn awgrymu bod angen i gymorth ac arbenigedd gael eu cronni i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael y cymorth i wneud y gorau o gyfleoedd:

- **Dylai Awdurdodau Lleol gyda chlystyrau creadigol yn eu hardal - neu'r rheini sy'n gobeithio datblygu clystyrau o'r fath - ddatblygu strategaeth diwydiannau creadigol leol lawn yn amlinellu:**
 - **Camau i adeiladu sylfaen sgiliau gref i gefnogi unrhyw gynyrchiadau yn yr ardal.**
 - **Sut i sicrhau bod y diwydiant yn darparu cyflogaeth a chontractau lleol.**
 - **Cysoni â pholisi rhanbarthol cyffredinol i sicrhau effaith economaidd ehangach.**
- **Dylai arferion gorau ar strategaethau gael eu rhannu ar draws llywodraeth leol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fforymau tebyg.**
- **Dylai cymorth ac arbenigedd canolog gael ei ddarparu trwy Cymru Greadigol neu gorff tebyg i adrannau economi lleol i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael y cymorth angenrheidiol i ddatblygu strategaethau creadigol a microglystyrau yn eu hardal.**



Mewnfuddsoddi

Mae'n bwysig nid yn unig denu mewnfuddsoddi drwy sicrhau bod y cymelliadau iawn yn eu lle ond hefyd i fwyafu ei werth i Gymru gydag amodau cymesur i sicrhau ei fod yn meithrin sgiliau a chwmnïau lleol.

Nododd ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd yn 2019 i Ffilm a Theledu yng Nghymru yr angen i gydbwysu gwerth mewnfuddsoddi gyda datblygu capasiti a galluoedd yng Nghymru. Fe wnaethant awgrymu bod sicrhau y gall BBaChau gael gafael ar gyfleoedd cyllido a rhoi hwb i sgiliau yn dyngedfennol i gynnal y cydbwysedd hwn.

Edrychodd y Pwyllgor hefyd ar fodel cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer ffilm a theledu a'i Chyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan nodi yn 2019 fod:

- Llywodraeth Cymru yn ei chael yn anodd ei gwario.
- Bod y broses o wneud penderfyniadau yn anhryloyw.
- Bod ei ffocws ar adenillion ariannol, a'r galwadau am adenillion uchel o fuddsoddi, yn ei gwneud yn annhebygol o ddarparu cyllid ar gyfer mân-gynhyrchwyr annibynnol

Yn wir adleisiwyd yr ail bwynt gan lawer o arbenigwyr yn cyfrannu at yr ymchwiliad, yn cynnwys Prif Weithredwr Ffilm Cymru ar y pryd, Pauline Burt, a ddywedodd wrth y Pwyllgor fod y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau "â'i geriad masnachol" "wedi'i gerio'n fwy naturiol tuag at gynyrchiadau ar raddfa fawr sy'n para'n hir, a mewnfuddsoddiadau" yn hytrach na meithrin sector sgrîn Cymru o'r gwaelod i fyny.

Roedd sgiliau'n ffocws allweddol arall i'r pwyllgor, wedi'i adleisio mewn ymchwiliad mwy diweddar i'r Gweithlu yn y Diwydiant Creadigol yng Nghymru²⁷, yn nodi angen clir i ganolbwyntio ar feithrin capasiti cynhenid yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu y gallai dull canol coll fod yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â'r problemau i BBaChau yng Nghymru.

- **Mae'r diwydiannau creadigol yn rhan enfawr o frand Cymru ac maent yn fantais gystadleuol. Dylai Cymru Greadigol weithio gyda Croeso Cymru i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl.**

²⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 'Y tu ôl i'r llenni: Gweithlu'r diwydiannau creadigol' (Hydref 2023)

- Yn y tymor hwy, polisi FSB Cymru fu i fod â chorff Masnach a Buddsoddi hyd braich i Gymru i ymorol am ddatblygu cyfleoedd buddsoddi a brand Cymru a chyfleoedd o dramor. Dylai unrhyw gorff o'r fath gysoni'r sector diwydiant creadigol ag anghenion brand eraill Cymru (megis twristiaeth, buddsoddi ehangach ayb) fel eu bod yn atgyfnerthu ei gilydd.
- Mae'r iaith Gymraeg yn fantais gystadleuol, sy'n darparu cyfleoedd datblygu sgiliau o fewn y sector creadigol yn arbennig, a chynhyrchion y gellir eu marchnata'n fyd-eang mewn amgylchedd ble mae mwy o dderbyniad i ieithoedd lleiafrifol. Mae angen i unrhyw strategaeth diwydiant creadigol weld yr iaith Gymraeg yn y fframwaith economaidd yma o dwf, nid fel ychwanegiad.
- Dylai Llywodraeth y DU ddilyn deisyfiadau polisi DU yr FSB i roi hwb i fasnach ryngwladol. Mae Tasglu Allforio diweddar yr FSB wedi galw ar Lywodraeth newydd y DU i weithio mewn ffordd fwy strategol o ran allforion a BBaChau, yn cynnwys: ymagwedd traws-Llywodraeth Prydain at bolisi, yn cynnwys gweithio gwell ar draws llywodraethau, cynnig cymorth allforio cadarn sy'n diwallu anghenion BBaCh, mynd i'r afael â rhwystrau agweddol i fasnach, a gwella mynediad BBaCh at gyllid masnach.²⁸

Caffael, Tendo a Chontractau - agor cyfleoedd

Tra bod rhai wedi'u bywiogi gan yr angen i ddod â mewnfuddsoddi, i gwmnïau llai eraill yn anelu at dendrau a chontractau cyhoeddus, roedd beirniadaeth hollgyffredinol bron ar y prosesau tendro. Roedd y feirniadaeth yn ymwneud â'r diffyg cymesuroledeb yn y gwaith papur a'r profion i BBaChau yn ogystal â'r diffyg eglurder mewn tendrau gan contractwyr ynglŷn â beth oedd arnynt ei eisiau a lefel yr ansawdd a ddisgwyliid.

Mae'r ail bwynt yn adlewyrchu rhai o'r anawsterau mewn mynediad at gyllid a bod gweithgaredd a gwaith creadigol yn tueddu tuag at yr 'anghyffyrddadwy' a'i bod yn anodd i rai nad ydynt yn arbenigwyr ei gyfleu. Mae hyn yn awgrymu bod angen i fframwaith ac iaith gyffredin gael eu datblygu ar y cyd ag ymarferwyr, fel bod y broses yn glir, a bod contractwyr yn cael y canlyniad gorau posibl.

Bydd sicrhau bod y polisi caffael yn hygyrch, gweithredu gwell ffordd o fynd ati i dendro a lleihau'r amser a dreulir ar gontractau anaddas yn helpu i adeiladu busnesau bach cryf, sydd yn ei dro yn eu galluogi i gystadlu am gyfleoedd mewnfuddsoddi. Wrth wneud hynny mae hyn yn mynd i'r afael â chwestiwn y canol coll drwy helpu cwmnïau i dyfu ac mae'n rhoi hwb i economi ehangach Cymru.

Nodwyd hefyd y byddai gwella hygyrchedd y prosesau hyn, o bosib drwy gydlunio gyda rhanddeiliaid, yn arbennig o ddefnyddiol i weithwyr llawrydd, yn arbennig i'r rheini sy'n niwrowahanol. Mae'n werth nodi ei fod wedi'i awgrymu yn ystod dau gyfarfod bord gron fod y diwydiant creadigol â chyfran uchel, yn ôl cyfran, o bobl niwrowahanol yn gweithio yn y sector, sy'n rhywbeth y dylai llunwyr polisi ei gymryd i ystyriaeth.

- **Mae BBaChau a gweithwyr llawrydd yn gweld prosesau tendro yn aneglur gan fod diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol gan contractwyr ynghylch sut i ddisgrifio a rhoi gwerth ar waith creadigol 'anghyffyrddadwy' a ddisgwyliar gan gyflenwyr, fel nad yw disgwyliadau a dealltwriaeth yn cael eu paru gan contractwyr a chan gyflenwyr yn y cyfnod tendro.**
 - **Dylai Cymru Greadigol neu gorff priodol tebyg adolygu'r prosesau hyn a chydunio fframwaith a chanllawiau gyda BBaChau i gefnogi contractwyr ar gontractau diwydiant creadigol i sicrhau eglurder ar:**
 - **iaith a mesurau cyffredin er mwyn cysondeb a dealltwriaeth gyffredin o'r disgwyliadau mewn contractau.**

²⁸ FSB SME EXPORT Taskforce (2024), ar gael ar <https://www.fsb.org.uk/resource-report/fsb-sme-export-taskforce-recommendations.html>

- Annog sgwrs gyda chyflenwyr posibl yn y cyfnod Mynegi Diddordeb i gael gwybod nodau'r prosiect yn well a nodi'r ffordd orau o fynd ati i ateb anghenion contractwr.
- Megis gyda BBaChau yn gyffredinol, mae busnesau creadigol a gweithwyr llawrydd yn cael pethau'n anodd gydag amser a chostau gweinyddol, ac yn aml nid oes ganddynt gapasiti Adnoddau Dynol i ymateb mewn ffyrdd sy'n dangos eu sgiliau orau:
 - Dylai mentrau megis 'Cymorth i Dyfu' gynnwys hyfforddiant ar ddod o hyd i gontractau a'u hennill, a chael eu targedu ar ficrofusnesau a'r hunangyflogedig, yn cynnwys o fewn diwydiannau creadigol fel sector blaenoriaeth.
 - Dylai defnydd o AI gael ei annog i ysgafnu amser a chostau gweinyddol, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar arferion gorau. Dylai Cymru Greadigol ddatblygu rhwydweithiau o ddarpariaeth cyngor arbenigol o fewn ei hybiau a'i rhwydweithiau rhanbarthol. Dylai'r ffocws fod ar ddefnydd ymarferol a chymwysiadau busnes.
- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth hunangyflogaeth benodol - yn cynnwys gweithwyr llawrydd a gyda phwyslais arbennig ar y diwydiannau creadigol - sy'n cael ei rhoi dan gyfrifoldeb Gweinidogol uniongyrchol.



Mynediad at Gyllid

“Mae natur benagored prosiectau creadigol a natur anghyffyrddadwy eu cynhyrchion yn llesteirio mynediad at gyllid ac yn rhoi premiwm ar hyblygrwydd - nodwedd sydd i'w chael yn amlach mewn sefydliadau llai.”²⁹

Mae mynediad at gyllid yn broblem barhaol i BBaChau ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hyn, ochr yn ochr ag atalyddion twf eraill BBaCh, yn broblem gyffredin yn yr economi greadigol hefyd. Mae NESTA yn nodi bod elfennau anghyffwrdd cynhyrchion diwylliannol yn cymhell microfusnesau a gweithwyr llawrydd gan ei fod yn annog hyblygrwydd ac ystywthder ond mae'r un priodoleddau hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i gael gafael ar gyllid, ac mae hyn yn cael effaith ar allu busnesau i dyfu ac ymgymryd â phrosiectau mwy, sydd eu hunain yn cael eu gweld yn fentrus yn aml gan ddarpar fuddsoddwyr. Mae hyn yn awgrymu bod ymagwedd a arweinir gan BBaCh at ddatblygu

²⁹ Creative Nation (Nesta: 2018)

economaidd sy'n cymryd anghenion penodol y sector i ystyriaeth yn gallu darparu fframwaith defnyddiol i edrych ar yr economi greadigol yng Nghymru. Yn arbennig, gallai gwella mynediad at gyllid wneud gwahaniaeth mawr i BBaChau a helpu i roi hwb i dwf.

Un maes y dylid ei archwilio yw gwarantu benthyciadau gan y Llywodraeth ar gyfer diwydiannau creadigol er mwyn dadrisgio buddsoddi. Mae De Korea a Singapore - sialenswyr diwydiannau creadigol aruthrol o lwyddiannus - â pholisïau o'r fath. Datblygodd De Korea ar hyd y llinellau hyn i gystadlu'n rhyngwladol, yn cynnwys mewn Ffilm (yn cynnwys Oscar pictiwr gorau), Teledu (gyda chyfresi lluosog yn iaith Korea a gynhyrchwyd trwy bartneriaeth megis Netflix), ac mae cerddoriaeth megis K-Pop yn ffenomenon diwylliannol sy'n cynnwys cynyddu'r nifer sy'n dysgu iaith Korea (yn arbennig yn UDA).

Roedd y buddion diwylliannol ac economaidd hyn wedi'u hadeiladu ar fuddsoddi hefyd a model De Korea o'r Llywodraeth yn gwarantu benthyciadau, gan werthfawrogi bod newyddbeth wedi'i seilio ar Eiddo Deallusol llai cyffyrddadwy megis hawlfraint, ac nid elfennau megis patentau a geir mewn technoleg ehangach a chwmmniau gweithgynhyrchu, yn galw am ddadrisgio i ddenu buddsoddiad. Fel y dywedodd Ymchwiliad pwyllgor Tŷ Arglwyddi'r DU:

“Mae awdurdodaethau eraill wedi dilyn amryw o ffyrdd o fynd ati i ddadrisgio buddsoddi. Lansiodd yr Undeb Ewropeaidd Gyfleuster Gwarantu'r Sectorau Diwylliannol a Chreadigol yn 2016, a oedd yn darparu gwarantau am fenthyciadau banc i gwmnïau diwydiannau creadigol. Creodd Singapore a Gweriniaeth Korea gronfeydd cyfalaf menter â chymorth y wladwriaeth. “Mae agwedd llunwyr polisi De Korea yn wahanol iawn. Maent yn cydnabod diffyg mynediad busnesau diwylliannol at gyllid ac yn ceisio mynd i'r afael â hynny trwy ymgysylltu'n weithredol â marchnadoedd ariannol.”³⁰

Noddodd y pwyllgor fod ymadawiad cynnar yn broblem hefyd mewn ecoleg a oedd yn datgymell rhag buddsoddi:

“Mae mynediad at gyllid yn parhau'n broblem i BBaChau yn y diwydiannau creadigol. Mae diffyg data, gochelgarwch buddsoddwyr a phrosesau rhy hir yn rhwystrau i gynnydd. 'Dyw ddim yn syndod fod busnesau'n troi at fuddsoddwyr tramor, yn gwerthu'r cwbl neu'n symud dramor.”³¹

Pa un a eir ar drywydd hyn ar lefel y DU ai peidio, dylai Cymru archwilio'r posibilrwydd hwn, trwy'r sefydliadau cymorth creadigol sy'n gweithio gyda Banc Datblygu Cymru ar gynnyrch addas i ddadrisgio buddsoddi. Wrth brif-frydio ffocws diwydiannau creadigol ar gymorth a mentrau megis Arfor dylai ddatblygu a chasglu data byw ar y diwydiant hefyd i'w werthu i fewnfuddsoddwyr.

- **Dylai Llywodraeth y DU liniaru'r hyn y mae buddsoddwyr yn ei ddirnad yn anghyffyrddoldeb gwaith creadigol trwy warantau a/neu gymelliadau llywodraeth ar gyfer benthyciadau a buddsoddi, megis cronfeydd cyfalaf menter Singapore a De Korea â chymorth y wladwriaeth, sy'n ychwanegu chwistrelliad o gyfalaf ac yn dadrisgio buddsoddi.**
- **Dylai Cronfa Fuddsoddi Banc Busnes Prydain i Gymru sicrhau bod ei gwaith o fudd i bobl greadigol.**
- **Ble mae lle i wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwarantu benthyciadau (neu % o fenthyciadau) yn y sector hwn. Dylai Banc Datblygu Cymru archwilio ehangu ei rôl fel darparwr banc Cyfalaf Menter i BBaChau o fewn y diwydiannau creadigol a pha effaith y gallai ei gael i ddadrisgio buddsoddi, a dylai'r rôl yma gael ei harchwilio mewn unrhyw adolygiad teilwredig gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.**

³⁰ Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi 'At risk: our creative future' (Ion 2023)

³¹ *ibid*

Sgiliau

Pryder a godwyd oedd nad oedd y diwydiannau creadigol yn derbyn parch cydradd â diwydiannau eraill, a bod hyn yn cael ei weithredoli mewn polisi ac yn nhermau anghyfartalwch cymorth, er gwaethaf ei statws fel sector allweddol ar gyfer twf. Fe wnaeth gwahanol gyfarfodydd bord gron gymharu ei bwysigrwydd canfyddiadol mewn cyferbyniad â sectorau eraill, megis gweithgynhyrchu a pheirianeg, yn negyddol.

- **Fel sector blaenoriaeth allweddol ar gyfer twf, dylai diwydiannau creadigol fod â pharch cydradd â sectorau diwydiannau allweddol eraill, gan olygu bod ymyriad polisi a wnelo â sgiliau ac addysg, cyllid, a thwf yn cyd-fynd â rhai sectorau diwydiannau 'caled' eraill, megis gweithgynhyrchu a pheirianeg.**

Roedd pryder ynglŷn â rhywfaint o drafodaeth y DU ar gyrsiau 'celfyddydau a diwylliant' yn cael eu gweld yn eilradd yn aml. Roedd hyn yn cael effaith ar gyngor gyrfaoedd, athrawon, a dirnadaethau rhieni o ragolygon eu plant yn y maes. Nodwyd y pryder hwn yn ymchwiliad Pwyllgor y DU.

Mae hyn hefyd yn tansellio'r honiad fod y diwydiannau creadigol yn sector blaenoriaeth allweddol yn ogystal â'i strategaeth greiddiol. Dylai gwleidyddion ymatal rhag yr honiad niweidiol a chamarweiniol hwn, fel sydd wedi'i gynghori yn ymchwiliad pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

- **Dylai Llywodraeth Cymru edrych at ei brofiad gwaith a chyngor gyrfaoedd mewn ysgolion a lansio ymgyrch i:**
 - **Rannu gwybodaeth ynglŷn â'i barn am y diwydiannau creadigol fel sector twf a chyflogaeth allweddol at y dyfodol, a'u rôl wrth ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy arwyddocaol o ran sgiliau celfyddyd, dyniaethau, y technegol a dylunio**
 - **Amlinellu buddion cyrsiau yn y meysydd hyn fel llwybrau at ddiwydiant s'n ffynnu ledled Cymru ac yn ardaloedd lleol pobl ifanc.**
 - **Amlinellu'r ystod o sgiliau trosglwyddadwy o ran creadigrwydd ond hefyd o ran y cysylltiad â sgiliau technegol sy'n darparu cefndir technegol cryf.**
 - **Dylai'r ymgyrch yma dargedu ysgolion, rhieni, a chynghorwyr gyrfaoedd. Dylai hyn gyd-fynd â datblygiad parhaus cyflwyno byd gwaith yn ieuengach mewn ysgolion.**

Codwyd pryder fod cyrsiau'n cael eu cau mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch oherwydd diffyg niferoedd yn eu dilyn. Awgrymwyd, yn wahanol i gyrsiau a wnelo â pheirianeg, nad oedd digon o ddylanwad i gymell a diogelu cyrsiau ar gyfer y sgiliau technegol allweddol sydd eu hangen yn y diwydiant. Fel sector ffyniannus mawr ei dwf, dylai diwydiannau creadigol gael eu hystyried yn gydradd â meysydd twf eraill megis gweithgynhyrchu, a bod cymorth ar gyfer cyrsiau heb eu llenwi yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn unol â hynny. Ochr yn ochr â hyn, byddai ymgyrch i fynd i'r afael â chamsyniadau ynglŷn â hyfywedd gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol yn rhoi hwb i'r nifer sy'n dilyn y cyrsiau hyn dros y tymor canolig.

- **Yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi cyrsiau heb eu llenwi tra byddir yn mynd i'r afael â dirnadaethau ynghylch hyfywedd gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol.**

Er bod y pryderon hyn wedi'u mynegi, nid dyma oedd y darlun llawn ym mhobman yng Nghymru. Rhoddwyd canmoliaeth i sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng ngogledd a gorllewin Cymru am eu hymgysylltiad â busnesau, ac wrth fod yn hyblyg yn llunio'r dysgu yn ôl anghenion sgiliau'r busnesau creadigol hynny. Er hynny, hyd yn oed yma roedd enghreifftiau uniongyrchol o ysgolion sydd heb fod â diddordeb mewn ymgysylltu â busnesau. Dylai'r cwricwlwm newydd ddarparu gwell sail ar gyfer hyn, ond bydd yn galw am newid ffyrdd o weithio i wneud hynny'n effeithiol, yn cael ei yrru gan arweinyddiaeth ysgolion.

Mae hyn yn amlinellu eto sut mae hybiau a chlystyrau'n darparu canolfannau cydgysylltu a gwell ymgysylltu. Nodwyd bod busnesau'n mawrbrizio cysylltiadau personol ac unigolion allweddol o fewn Addysg Bellach. Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, ymddengys fod yr ymgysylltu yma'n fwy cymhleth mewn ardaloedd mwy ble mae mwy o sefydliadau, yn cynnwys yn ne Cymru, (gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn cael ei nodi fel eithriad) ac felly mae'n galw am gydgysylltu canolog.

- **Wrth weithredu'r cwricwlwm newydd, dylid rhoi awdurdod i ysgolion ymgysylltu â hybiau a dylai busnesau creadigol gymryd rhan mewn cyngor gyrfaoedd ysgolion.**
- **Dylai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu rhwydweithiau o BBaChau creadigol a phrosesau ymgysylltu.**

At ei gilydd roedd busnesau'n ystyried cefnogi cyfleoedd lleol i bobl ifanc yn rhan allweddol o'u cenhadaeth, gan ddangos bod hwn yn dir ffrwythlon i ddatblygu sgiliau a bod busnesau'n bartneriaid parod iawn os gellir eu cefnogi i ymgysylltu.



Clystyrau Creadigol a Microglystyrau

Wrth edrych ar fframwaith economaidd bras ar gyfer twf 'Canol Coll' fel y mae'n berthnasol i fusnes creadigol, mae angen i'r holl elfennau fod yn atgyfnerthu ei gilydd.

Fel y nodwyd, mae diwydiannau creadigol yn tueddu tuag at glystyrau, ac yng Nghymru fel mewn mannau eraill mae hyn wedi arwain polisi'r DU i ganolbwyntio ar ddatblygiad trefol. Yn naturiol, mae'r ddemograffeg wedi canolbwyntio diwydiannau creadigol yn fawr iawn ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, o ystyried ei bod yn gartref i 6 o bob 10 busnes diwydiant creadigol, ac mae polisi economaidd wedi'i gerio'n aml tuag at y ffocws hwn.

Mae i hyn fanteision pendant, ac mae Caerdydd fel hyb prifddinas yn darparu twf cryf, buddion deilliedig i'r rhanbarth lleol (yn cynnwys BBaChau), mae'n ganolfan rhagoriaeth, yn denu buddsoddi rhyngwladol, mae iddi adnabyddiaeth enw ac mae'n hyrwyddo brand Cymru.

Er hyn oll, mae yna berygl y gall y llwyddiant hwn annog polisiâu economaidd wedi'u seilio o amgylch polisiâu'n canolbwyntio ar y trefol (ac yn arbennig ar y ddinas), wedi'u gerio tuag at grynodref.

*"Nid yw'r potensial i ddiwydiannau creadigol gwledig chwarae mwy o rôl yn natblygiad economaidd ardaloedd gwledig wedi derbyn sylw helaeth, yn bennaf oherwydd ffocws sy'n bod ers tro ar glystyrau creadigol mewn cyd-destun trefol, mewn cyd-destun polisi yn ogystal â chyd-destun academaidd. Mae'r deunydd darllen mawr iawn ar glystyrau creadigol at ei gilydd yn nodweddu clystyrau diwydiannau creadigol fel ffenomenon trefol."*³²

Yn y cyd-destun hwn, fe all ffocws ar ddinasoedd hepgor elfennau o ddatblygu gwledig ac mae hyn wedyn yn cael effaith benodol yn nemograffeg Cymru.

Mae Canolfan Polisi a Thystiolaeth (PEC) y diwydiannau creadigol wedi ymchwilio i'r diwydiannau creadigol yng nghefn gwlad Lloegr, ac ymddengys fod y canfyddiadau'n ddefnyddiol i'n dibenion ninnau. Maent yn nodi bod ffocws ar ddiwydiannau creadigol trefol wedi arwain at anwybyddu cyfraniad gwirioneddol a phosibl y diwydiannau creadigol at yr economi wledig a chenedlaethol i raddau helaeth hyd yn er bod tystiolaeth ystyrlon fod mentrau creadigol â rôl arwyddocaol i'w chwarae mewn economïau gwledig.

*"Gwelwn nad yw sbardunwyr clystyru mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol wahanol i ardaloedd trefol, ar wahân i gyswllt gwan rhwng microglystyru gwledig a rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol. Mae hyn yn agor modd o lunio polisi yn seiliedig ar leoedd i gefnogi ffurfio a datblygu microglystyrau ar sail adfywio diwylliannol ochr yn ochr â mathau eraill o ddatblygu economaidd. Dadleuwn felly y dylai ymyriadau wrth 'godi'r gwastad' yn y DU wedi'u seilio ar glystyrau creadigol hyrwyddo, yn hytrach na hepgor, clystyrau creadigol gwledig."*³³

O ystyried bod cymunedau gwledig yn ffurfio traean o boblogaeth Cymru a thraean o gynnyrch economaidd Cymru,³⁴ dylai datblygu microglystyrau mewn ardaloedd gwledig fod yn flaenoriaeth yng Nghymru felly.

Mae dadansoddi hyn trwy lens 'microglystyrau' creadigol yn ffordd gynhyrchiol o fynd ati. Mae NESTA yn diffinio microglystyrau creadigol fel 'grwpiau llai o 50 neu fwy o sefydliadau creadigol agosaf o fewn cwmpas 1 i 5 cilometr gydag archwaeth am dwf.' Fe all deall y graddfeydd llai hyn ddarparu'r sylfaen dystiolaeth i dyfu diwydiannau creadigol gwledig.

Enwodd adroddiad Creative Radar y PEC 709 o 'microglystyrau' creadigol ar draws y DU, o boethfannau creadigol llai adnabyddus ym Mae Colwyn yng ngogledd Cymru i Buxton yn Lloegr. Mae nifer sylweddol (247) i'w cael y tu allan i'r 47 clwstwr sefydledig. Mae'n werth nodi bod cwmnïau mewn microglystyrau y tu allan i Lundain a'r De-Ddwyrain yn fwy tebygol o ystyried mynediad at gyllid allanol yn rhwystr i dwf.³⁵

³² NICRE 'Mapping and examining the determinants of England's rural creative microclusters' (2022)

³³ *ibid*

³⁴ Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi 'Fact file: Rural economy', <https://lordslibrary.parliament.uk/fact-file-rural-economy/>

³⁵ Siepel et al, Canolfan Polisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol 'Creative Industries Radar: Mapping the UK's creative clusters and microclusters' (PEC: 2020)

Mae 15 o glystyrau microglystyrau wedi'u henwi yng Nghymru, a mesur sylweddol o weithgaredd rhanbarthol gyda 12 o'r 15 y tu allan i'r 'parth clystyrau' sefydledig yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae llawer o'r microglystyrau'n cynnwys nifer sylweddol o gwmnïau:

Tabl: Microglystyrau Creadigol yng Nghymru

| Ardal | Nifer o gwmnïau |
|-----------------------------|------------------------|
| Bangor | 85 |
| Colwyn Bay (1) | 82 |
| Colwyn Bay (2) | 86 |
| Rhyl | 71 |
| Wrexham | 137 |
| Aberystwyth | 116 |
| Carmarthen | 83 |
| Haverfordwest/Milford Haven | 89 |
| Llanelli | 88 |
| Swansea | 478 |
| Bridgend | 156 |
| Penarth | 79 |
| Cardiff (1) | 165 |
| Cardiff (2) | 439 |
| Newport | 267 |

Mae ardaloedd ger y ffin yn berthnasol hefyd (e.e. Llwydlo, Croesoswallt, Caer, Henffordd)

Mae clystyrau dinesig yn bwysig - ac mae Dinas-Ranbarth Caerdydd â 60% o'r mentrau creadigol yng Nghymru o fewn ei thiriogaeth, gyda llai na hanner poblogaeth Cymru, ac mae'n hanfodol bwysig i ddenu buddsoddiad ac fel canolfan ragoriaeth.

Er hynny, mae microglystyrau'n gallu cael effaith arwyddocaol y tu hwnt i'w 'hardal glwstwr'. Dylid nodi hefyd fod y rhychwant daearyddol hwn o ficroglystyrau yn cael effaith benodol ar yr iaith Gymraeg a'r economi mewn rhai rhannau o Gymru a'i fod yn lledaenu ffyniant ar draws Cymru.

- **Dylai cylch nesaf y rhaglen Clystyrau Creadigol ymorol am ddarparu ffocws newydd ar ficroglystyrau y tu allan i'r clystyrau crynodrefi trefol, yn cynnwys y 15 microglwstwr yng Nghymru (y mae 12 ohonynt y tu allan i ardal Clwstwr Caerdydd).**
- **Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ymchwil i ddeall effaith microglystyrau creadigol ar yr economi leol yn well. Dylai'r prosiectiau hyn fod wedi'u gerio at ddeall ffactorau economaidd gwledig/trefol, a dealltwriaeth mwy gronynnog o'r rhyngweithio rhwng yr iaith Gymraeg a'r economi.**



Trafnidiaeth a Seilwaith

Gan fod BBaChau wedi'u sefydlu fwy yn eu cymunedau lleol yn gyffredinol, cânt eu heffeithio fwy gan amrywiant yn ansawdd y seilwaith. Yn wahanol i gwmnïau mwy, maent yn llai galluog i symud i ardaloedd gyda gwell seilwaith. I economïau lleol mae hyn yn beth da, gan sicrhau nad yw'r BBaChau hynny'n dueddol i enciliad cyfalaf, ac felly'n helpu datblygu economaidd lleol, swyddi ac arloesedd. Ond - fel unigolion - maent yn fwy dibynnol ar ansawdd y seilwaith ac ar benderfyniadau a chyllid yn darparu tegwch daearyddol.

Wedi'u nodi yn ein trafodaethau cyfarfodydd bord gron oedd problemau ynglŷn â bod trafndiaeth gyhoeddus ar gael i hybiau, o ran sero net ond hefyd i gael gafael ar sgiliau, yn arbennig pobl iau, i bwy y mae perchenogaeth car ac yswiriant yn anghymesur o gostus. Roedd hyn yn bwysig hefyd i leoliadau byw (theatr, cerddoriaeth) i sicrhau y gallai cynulleidfaoedd deithio yn ôl a blaen i'w perfformiadau, yn arbennig gyda'r hwyr. Roedd trafodaethau hefyd ynglŷn â bod pontio sero net yn ddibynnol ar seilwaith gwefru a seilwaith ffyrdd, a oedd yn gwneud yr opsiwn yn llai hyfyw.

Rydym wedi nodi bod rhwydweithiau o amgylch yr hybiau yn ymddangos yn fodel da ar gyfer mwy o ymgysylltu, creu gwell mynediad at arbenigedd ac ymyriadau ar feysydd penodol (megis sgiliau, archwiliadau sero net, ac felly ymlaen). Er hynny, erys yr hybiau yn dra dibynnol ar drafndiaeth gyhoeddus. Rhaid i'r Bil Bysiau presennol a'i weithrediad sicrhau y caiff anghenion hybiau a pharciau busnes eu cymryd i ystyriaeth, ac y caiff dealltwriaeth o'r effaith ei chymryd yn gyfannol (e.e. lleihau traffig, gwariant yr economi nos, ayb.) mewn strategaethau lleol a masnachfreinio:

- **Rhaid i'r Bil Bysiau newydd a'i weithrediad fynd i'r afael ag anghenion busnes fel mater o flaenoriaeth, yn cynnwys:**
 - **Dylai Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdodau Lleol sicrhau gwasanaethau rheolaidd a dibynadwy i hybiau a pharciau busnes, yn cynnwys microglostyrau creadigol.**
 - **Dylai atebion arloesol megis gwasanaethau o ddrws i ddrws math Fflecsi i leihau traffig a symud i ffwrdd oddi wrth ddefnydd ceir preifat gael eu harchwilio.**
 - **Dylai busnes fod â mewnbwn uniongyrchol, gan ddarparu adborth ar sut mae amserlennu'n effeithio ar fynediad at y celfyddydau, diwylliant a'r economi leol.**

Yr Iaith Gymraeg

Fe wnaeth ein cyfarfodydd bord gron ganfod bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyffredinol yn ôl yr arfer, gyda busnesau'n ei gweld fel rhan naturiol o'u brandio, eu cynlluniau busnes a'u hamgylchedd, yn arbennig yng ngogledd a gorllewin Cymru. I lawer, roedd dwyieithrwydd yn ffordd arferol o weithio wrth ennill contractau drwy sefydliadau Cymreig (S4C, BBC, ond yn y sector cyhoeddus hefyd), ac ymddengys fod hyn yn normaleiddio ei defnydd. Roedd y rheini nad oeddynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu iaith gyntaf yr un mor gefnogol ble oeddynt yn cynnig am gontractau o'r fath, ac roedd rhai yn ystyried bod sicrhau bod ganddynt sgiliau iaith yn eu gwaith i dendro am gontractau yn yr iaith Gymraeg yn fantais gystadleuol sy'n caniatáu iddynt ddatblygu a thyfu.

Fel y cyfryw mae yna ewyllys a chefnogaeth i'r iaith wedi'i seilio ar etheg busnes gyffredinol. Hyd yn oed ble oedd rhai yn gweld hyn mewn termau trafodiadol i ennill contractau (mynegwyd y dôn yma gan leiafrif), nid oedd yn cael ei gweld mewn termau negyddol. Wedi'i gyplysu â chefnogaeth i ddarparu gwaith creadigol ac agoriadau i bobl ifanc yn eu hardal leol - a fynegwyd yn arbennig gan orllewin Cymru a gogledd Cymru - mae hyn yn awgrymu ysgogiad heb ei gyffwrdd y gellid ei harneisio ar gyfer yr iaith ac ar gyfer yr economi.

Mae ymchwil ar y Gymraeg wedi nodi:

“Er bod consensws helaeth ynghylch canolrwydd y cyswllt iaith - economi i ymdrechion i adfywio'r iaith, y duedd gyffredinol yw i'r drafodaeth ar y berthynas rhwng y ddau gael ei chynnal mewn termau braidd yn gyffredinol.”³⁶

Bu i'r Athro Elin Royles nodi diffyg aliniad hefyd rhwng strategaethau i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol a pholisïau datblygu economaidd eraill y llywodraeth. Mae Royles yn awgrymu dadansoddiad sectoral mwy gronynnog o gyswllt yr economi a'r iaith yn bedwar categori, gan weithio o feysydd ble mae'r cyswllt yn lleiaf uniongyrchol (h.y. bod yr iaith a ddefnyddir gan sector yn atodol i'r cynhyrchion neu'r gwasanaeth a ddarperir) i'r mwyaf uniongyrchol (ble mae'r gwasanaeth a'r cynnyrch â chyswllt cynhenid â'r iaith a ddefnyddir).

I'n dibenion ni, y pwynt pwysig i'w nodi yw bod Royles yn defnyddio diwydiannau creadigol yn groyw fel yr enghraifft ar gyfer categori 4, gyda'r cyswllt mwyaf uniongyrchol rhwng iaith a datblygu'r economi, fel:

“Datblygiadau economaidd sydd â chysylltiad penodol â diwydiannau a gweithgareddau sydd â pherthynas uniongyrchol ag iaith leiafrifol a ble gall yr iaith fod yn amod cyflogaeth. Mae enghreifftiau o'r categori hwn yn cynnwys diwydiannau creadigol y mae'u cynhyrchion mewn iaith leiafrifol ac sy'n gweithio mewn iaith leiafrifol.”³⁷

O ystyried bod y sefydliad hanesyddol yn adeiladu o amgylch ardaloedd o ddiwylliant (S4C, Radio, cyhoeddi ayb), mae i'w nodi hefyd fod y rhain yn ffurfio clystyrau o weithgaredd sy'n darparu cymorth i bobl creadigol yn eu hardal a'u bod yn fantais gystadleuol.

Mae'r cyswllt rhwng economi ac iaith wedi bod yn sail y ffordd o fynd ati i brosiect Arfor Llywodraeth Cymru, sydd bellach yn ei ail iteriad. Nod y rhaglen yw:

“Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd yr iaith Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd yn cyfrannu hefyd at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg bob dydd.”³⁸

Mae'r diwydiannau creadigol yn ffurfio microglystyrau clir ar draws ardal Arfor a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn gyffredinol. Dylid gwneud dadansoddiad o sut y gall diwydiannau creadigol (fel y mae NESTA yn dadlau) hyrwyddo mwy o greadigrwydd yn eu hardaloedd clwstwr yn gymharol â sectorau eraill. Gallai hyn ddarparu mwy o effaith ar dwf drwy dyfu capasiti a galluoedd lleol yn ogystal â gweithgaredd busnes newydd. Mae'n ymddangos bod lle i gysoni'r sector allweddol hwn â chylch prosiectau nesaf Arfor yn well, ochr yn ochr â gwerthusiad a dadansoddiad economaidd o'r effaith.

- **Dylai'r iaith Gymraeg gael ei hystyried yn fantais gystadleuol, a dylai fod â chyswllt cynhenid â strategaeth economaidd a strategaeth diwydiant creadigol fel sbardun twf ac arloesi, ac nid fel ychwanegiad.**

³⁶ E Royles, 'Workshop Briefing Report 3: Language Revitalisation and Economic Transformation' ar gael ar <https://revitalise.aber.ac.uk/en/media/non-au/revitalise/Revitalise-Workshop-Report-3-FINAL.pdf>.

³⁷ ibid

³⁸ Prosiect Arfor, gwybodaeth ar <https://www.rhaglenarfor.cymru/index.en.html>

Cymru a'r Gymraeg yn y Byd

Mae FSB Cymru yn credu bod peidio â chysylltu'r economi a'r iaith yn golygu colli cyfle pan ddaw hi'n fater o edrych ar frand Cymru yn rhyngwladol.

Mewn strategaethau, tueddwn i weld yr iaith Gymraeg yn cael ei hychwanegu at rywbeth arall yn hytrach na chael ei gweld yn gynhenid i drafodaeth economaidd. Hyd yn oed ble mae cyd-drafod mae hyn yn wir hefyd - nododd adroddiad Pwyllgor Diwylliannol y Senedd er enghraifft:

*'Rydym yn glir fod yna fudd diwylliannol i gyllido ffilmiau yn yr iaith Gymraeg sy'n gorbwysu'r galwadau am adenillion masnachol o fuddsoddi. Mae ffilmiau yn y Gymraeg yn hyrwyddo ein gwlad ac yn sefydlu ein hunaniaeth ar lwyfan byd-eang. Ni ellir mesur natur unigryw ein cynnig diwylliannol yn ariannol.'*³⁹

Tra bo hyn yn dda ei fwriad ac yn gywir cyn belled ag y mae'n mynd, mae'n tueddu hefyd i osod safbwynt amddiffynnol wrth gysylltu'r Gymraeg â'r economi, bod ei gwerth yn bwysig er gwaethaf yr economi.

Os ydym yn cymryd amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol o ddifrif – ac yn cymryd beirniadaeth ddiweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mai celf a diwylliant sy'n derbyn leiaf o gefnogaeth o nodau llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - yna mae angen inni wydroi'r sefyllfa honno a nodi bod hyn yn werth economaidd posibl heb ei gyffwrdd ac yn fantais gystadleuol. Dylai sefyllfa'r iaith o fewn diwydiannau creadigol ddilyn wedyn o'r egwyddor yma.

Mae llawer o enghreifftiau mewn teledu a cherddoriaeth o lwyddiant rhyngwladol o'r fath - ac ni ddylai'r rhain gael eu hystyried yn eithriad ond yn brawf o werth posibl ac o gynulleidfa fyd-eang dderbyngar.

Mae ieithoedd lleiafrifol â'r potensial yn awr i gyrraedd cynulleidfa lawer mwy yn fyd-eang, a chynulleidfa sydd at ei gilydd yn fwy derbyngar i'r cyfryngau mewn ieithoedd heblaw eu hiaith eu hunain, mewn rhai achosion gydag ychydig iawn yn nhermau costau cynhyrchu neu ddsbarthu. O K-pop, ffilmiau a theledu o Dde Korea yn cicdanio ton o gyrsiâu dysgu iaith Korea yn UDA, i Scandi-noir yn dominyddu teledu ditectif teledu yn y 2010au, i 'gerddoriaeth byd' heb fod bellach yn ddisgrifiad i droi ato ar gyfer pop nad yw yn yr iaith Saesneg, mae yna fwy o fesur o fod yn agored i ieithoedd lleiafrifol rhyngwladol nag a fu erioed yn wir o'r blaen. Ni fyddai 'Mwng', albwm y Super Furry Animals yn 2000 yn llwyddo i gyrraedd y 10 uchaf yn y DU yn cael ei weld yn gymaint o syndod yn awr. Fel y nododd Guto Harri am raglenni megis Byw Celwydd a 'Y Gwyll/ Hinterland':

"fe werthodd [e] i fformatau teledu dros y byd i gyd - i Japan a China. Felly, mae'n stori lwyddiant ffantastig ac yn rhywbeth sydd, i mi, yn rhy brin yng Nghymru - sector annibynnol ffyniannus o fân-gynhyrchwyr. ... Dylem fod â'r hyder i feddwl bod y rhain yn sefydliadau gwyh; dylent gael eu gollwng yn rhydd, eu hannog i dyfu a'u hannog i wneud y gorau ohono."

³⁹ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 'Ymchwiliad i Gynrychiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru' (Senedd: 2019)

Mewn geiriau eraill, fe all dull canol coll gael ei enghreifftio yn y diwydiannau creadigol Cymraeg eu hiaith drwy gysylltu a chydgysylltu'r ffocws economaidd lleol ar ficroglystyrau creadigol i gryfhau busnesau. Ochr yn ochr â hyn, rhaid i'r strategaeth brand rhyngwladol ehangach ymorol am dyfu allforion a 'rhyngwladoli' fel BBaChau i adrodd hanesion o Gymru.⁴⁰ Mae bod â hanesion o Gymru – yn cynnwys yn y Gymraeg – â gwerth y gellir ei farchnata a'i rannu gyda marchnadoedd byd-eang.

- **Dylai Llywodraeth y DU ymorol am ddatblygu ac ehangu rhyddhadau a chymelliadau treth Ymchwil a Datblygu i'r diwydiannau creadigol ymhellach, gan fod y rheini sydd yn eu lle yn barod - megis Credyd Gwariant Clyweledol (AVEC) a Chredyd Gwariant Gemau Fideo (VGEC) - wedi bod yn dra llwyddiannus.**
- **Dylai Llywodraeth y DU archwilio sut y gall % uwch o gyllid Ymchwil a Datblygu gael ei dargedu ar y diwydiannau creadigol drwy sicrhau nad yw'r dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol yn cael eu hepgor bellach o ddiffiniad Ymchwil a Datblygu y DU, gan ddilyn arferion gorau'r OECD, a sicrhau bod yr Eiddo Deallusol (IP) ar gyfer dylunio a hawlfraint yn derbyn parch cydradd â phatentau.**
- **Dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu galwad yr FSB i wario'r hyn sy'n cyfateb i o leiaf 10% o'r gyllideb Ymchwil a Datblygu gyffredinol ar ledaenu a mabwysiadu arloesedd a gosod targed fod o leiaf hanner yr holl gyllid Ymchwil a Datblygu uniongyrchol yn mynd i BBaChau. Dylai hyn fod yn berthnasol i Gymru hefyd.**

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae ansicrwydd ynglŷn ag arwyddocâd AI a'i ddefnydd yn gyffredinol ymhlith y gymuned BBaCh yn cael ei adlewyrchu yn y diwydiannau creadigol. Byddai llawer yn elwa ar hyfforddiant ymarferol i leihau amser a chostau gweinyddu. Yn benodol ar gyfer pobl greadigol, mae sawl defnydd posibl i AI ar gyfer digwyddiadau, perfformiadau a chynhyrchion creadigol, a gallai'r rhain gael eu hwyluso drwy ddatblygu rhwydweithiau o arbenigwyr AI yn rhagweithiol y gall pobl greadigol eraill gael atynt.

Yn gyffredinol, dylai llywodraethau ddilyn argymhellion yr FSB o'i adroddiad Ailddiffinio Deallusrwydd, yn cynnwys materion ynglŷn â hawlfraint a gorfodi. Yng nghyd-destun arbennig y diwydiannau creadigol yng Nghymru:

- **Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gynnwys gwybodaeth a hyfforddiant AI ar draws rhaglenni cymorth gan bwysleisio'i ddefnydd ymarferol a chreadigol ar lefel y cwmni.**
- **Dylai Cymru Greadigol weithio gyda'r clystyrau i ddatblygu rhwydweithiau o arbenigwyr AI yn rhagweithiol y gall pobl greadigol eraill gael atynt i archwilio ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg mewn cynhyrchion a digwyddiadau creadigol i BBaChau creadigol mewn ffordd sy'n sicrhau chwarae teg**
- **Dylai argymhellion adroddiad 'Ailddiffinio Deallusrwydd' yr FSB ar AI gael eu mabwysiadu, yn cynnwys:**
 - **Deddfwriaeth sy'n sicrhau bod yr holl gynnyrch a grëir gan AI yn amlinellu'n glir fod y cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI ac adolygiad i ddefnydd AI a hawlfraint ac yn sefydlu archwiliadau o ddefnydd AI.**
 - **Dylai mabwysiadu sgiliau a thechnoleg AI gael ei annog ymhlith BBaChau drwy gorff annibynnol yn y DU sy'n darparu argymhellion polisi, Cronfa Awtomatiaeth, ac adran ar ddefnydd llwyddiannus AI o fewn busnesau mewn cyrsiau rheoli (megis Cymorth i Dyfu).**

⁴⁰ Gweler dau adroddiad FSB Cymru: 'Internationalising Welsh Business' (2020), <https://www.fsb.org.uk/resources-page/final-internationalising-welsh-business---trade--investment-and-export-pdf.html>; 'Cymunedau Croesawgar' <https://www.fsb.org.uk/resource-report/welcoming-communities.html#:~:text=The%20title%20of%20Welcoming%20Communities,stories%2C%20marketing%2C%20and%20strategies.>

Beth yw Gwerth Creadigrwydd?

Wrth sôn am y broses greadigol mae Maya Angelou y bardd a'r weithredwraig adnabyddus yn enwog am ddweud:

“Ellwch chi ddim dihysbyddu creadigrwydd. Mwya'n y byd y defnyddiwch chi, y mwya sydd gennych.”

Roedd hi'n cyfeirio at y lefel greadigol unigol wrth gwrs. Ond mae'n rhesymegol ailfframio'r cwestiwn hwnnw mewn termau economaidd a chymdeithasol. Beth mae 'defnyddio mwy' o greadigrwydd a 'bod â mwy' o greadigrwydd yn ei olygu i'n heconomi, ac i'n cymdeithas?

Mewn termau economaidd, mae gweld 'creadigrwydd' fel rhywbeth 'na ellir ei ddihysbyddu' yn gyfystyr â gweld y cysyniad fel 'capasiti' sy'n cael ei gynyddu, yn hytrach na'i golli. O'i gymhwyso at bobl greadigol BBaChau, mae hyn yn cyflwyno persbectif polisi wedi'i gerio o amgylch meithrin capasiti, gan ddod ag arloesedd ar waith o fewn eu busnesau, gan ddysgu drwy wneud a dod â sgiliau newydd i mewn.

Ar ben hynny, mae tyfu cwmnïau creadigol yn dod â mwy o greadigrwydd i ddiwydiannau anghreadigol eraill ac yn dod yn sbardun i ddatblygu a thyfu. Yn ogystal mae cynyddu gweithgaredd a chapasiti creadigrwydd yn cysylltu twf economaidd â diwylliant, a'r amcanion a'r nodau llesiant ehangach o fewn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Y cwestiwn economaidd allweddol yw 'sut ydym yn creu mwy o gyfleoedd i 'ddefnyddio mwy' ac felly 'bod â mwy' o greadigrwydd yng Nghymru?' O ran polisi llywodraeth, mae yna rôl allweddol i Lywodraeth Cymru ei chwarae wrth gefnogi BBaChau yn y diwydiannau creadigol i ffynnu trwy ddileu rhwystrau i wneud gwaith creadigol a chreu cyfleoedd a lleoedd i unigolion, BBaChau a chymunedau wneud hynny. O ran cymorth cyllidol, gallant helpu BBaChau i dyfu a datblygu drwy leddfu problemau gyda mynediad at gyllid a darparu cymorth effeithiol i fusnesau.

Mae addysg yn alluogydd tyngedfennol wrth gwrs. Rhaid i'r system addysg ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau perthnasol a chydabod y diwydiannau creadigol yn sector twf economaidd allweddol o ran cyngor gyrfaoedd a phartneriaethau rhwng darparwyr addysg a busnesau.

Mae'n bwysig hefyd cydnabod y rôl allweddol y mae hybiau a rhwydweithiau yn ei chwarae i BBaChau, yn cynnwys y sefydliadau celf a diwylliant sy'n aml yn ganolbwytiau o amgylch pa rai y mae clystyrau o BBaChau creadigol yn cyduno. Maent yn helpu BBaChau creadigol i ennill mwy o gyfleoedd gwaith, ac i weithio gydag eraill i fwyhau eu cynnig mewn contractau mwy. Gwelsom fod y rhain wedi bod yn hollbwysig i fusnesau ym mhob ardal, ond ei bod yn ymddangos bod y cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau anffurfiol o'r fath yn llai i fusnesau yng nghyfarfodydd bord gron Caerdydd. Felly dylai hyn fod yn flaenoriaeth polisi o ran cymorth ac adnoddau.

Yn y diwedd, dylai pobl creadigol a BBaChau creadigol fod yn falch o'u cyfraniad economaidd – ar y lefel facro mae'r achos economaidd yn glir, ac mae angen i'r prif ymyriadau polisi fod yn mwyhau'r gwerth hwnnw. Mae ardal glwstwr Caerdydd – fel cartref i 60% o fusnesau'r diwydiant creadigol yn ganolfan arbenigedd hanfodol bwysig ac yn fagned i fuddsoddi, wedi'i hymgyfuno o gwmpas sefydliadau megis y BBC ac yn meithrin capasiti ffilm a theledu enfawr dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, gallai'r effaith i'n cymunedau ar draws Cymru – gan edrych ar hyn drwy'r lens microglwstwr a ddatblygwyd gan Nesta – gael effaith enfawr os caiff ei harneisio'n fwy strategol a gan gysoni polisi tuag at y dibenion hyn.

Dylai'r diwydiannu creadigol fod yn falch o gyfraniad cymdeithasol y sector hefyd. Ychydig fyddai'n amau eu pwysigrwydd i'n lles, a wnaed yn hollol amlwg yn ystod y pandemig Covid a'u rôl wrth gadw pobl yn weithgar ac wrth ddarparu hybiau cymunedol a chyswllt cymdeithasol.

Mae FSB Cymru wedi nodi pryderon nad yw prosesau cyllidebau blynyddol yn adlewyrchu'r dull Cenedlaethau'r Dyfodol cyfannol yn ddigonol pan ddaw hi'n fater o gymorth i BBaChau a datblygu economaidd, ond yn hytrach mae'n dal i fod wedi'i ddal mewn adranyddiaeth a phwysau uniongyrchol, gyda ffocws dealladwy ar y gyllideb iechyd. Byddai angen i ddull Cenedlaethau'r Dyfodol ofyn pa un a oes agweddau ar iechyd (ac felly'r gyllideb iechyd) a ddylai gael eu targedu i gefnogi gwaith creadigol, cyfleoedd creadigol a'r economi creadigol o ystyried eu buddion amlwg o ran lles.

Os y mwya o bethau creadigol a wnewch chi, y mwya sydd gennych, a'r mwya o effaith y mae'n ei gael arnom i gyd, mae'n ymddangos y byddai'n fuddsoddiad da iawn at y dyfodol.

 fsb.org.uk/membership/fsb-regions-and-nations/fsb-wales.html

 facebook.com/federationofsmallbusinesses

 @FSB_Wales

 fsb-wales-federation-of-small-businesses

 @fsb_uk


Federation of Small Businesses
Ffederasiwn y Busnesau Bach